

**Tystiolaeth i'r Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid
Myfyrwyr yng Nghymru**

**ADDYSG UWCH RAN AMSER YNG NGHYMRU: ADRODDIAD
TERFYNOL**

Gareth Rees

Chris Taylor

Ceryn Evans

Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru
(WISERD)

Prifysgol Caerdydd

reesg1@cardiff.ac.uk

taylorcm@cardiff.ac.uk

Mawrth 2015



Cyflwyniad

Comisiynwyd WISERD gan Lywodraeth Cymru i roi tystiolaeth ynglŷn ag addysg uwch ran amser yng Nghymru ar gyfer yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru (Adroddiad Diamond). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfrif o'r gwaith a wnaed. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o waith ymchwil, gan gynnwys dadansoddiad o ddata ystadegol, adolygiad llenyddiaeth a chyfweiliadau ag unigolion allweddol. Fodd bynnag, dylid pwysleisio mai prif ddiben y gwaith ymchwil hwn fu cwmpasu, yn hytrach na gwneud dadansoddiad cwbl ddatblygedig. Yn unol â hynny, daw'r adroddiad i ben drwy wneud argymhellion ynglŷn â'r meysydd ar gyfer gwaith ymchwil pellach, y gall yr Adolygiad ystyried ymgymryd ag ef.

Mae'r adran nesaf yn ystyried rhai o'r materion diffiniol sy'n codi wrth ddadansoddi addysg uwch ran amser. Yna, rhoddir disgrifiad bras o'r tueddiadau diweddar yn natblygiad addysg uwch ran amser yng Nghymru. Mae hwn yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer adolygiad o'r llenyddiaeth ymchwil flaenorol yn y maes hwn, yn gyffredinol ac yn benodol i Gymru. Mae'r adran nesaf yn ymdrin â'r safbwyntiau a fynegwyd gan 'chwaraewyr allweddol' ym maes addysg uwch yng Nghymru ar y problemau mwyaf dybryd a wynebir gan ddarpariaeth addysg uwch ran amser ar hyn o bryd. Yn olaf, rydym yn nodi rhai o'r meysydd pwysicaf lle mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach, yn ein barn ni.

Diffiniadau

Cydnabyddir yn gyffredinol bod diffinio addysg uwch ran amser mewn ffordd ystyrllon yn achosi problem (er enghraifft, Feinstein *et al.*, 2007). Yn benodol, mae wedi mynd yn gynyddol anodd gwahaniaethu rhwng addysg uwch ran amser a llawn amser, oherwydd mae darpariaeth yr olaf wedi dod yn fwy hyblyg ac mae myfyrwyr 'llawn amser' yn fwy tebygol o gyfuno eu hastudiaethau â gweithgareddau eraill (yn enwedig cyflogaeth). O ganlyniad, mae addysg uwch ran amser bellach yn cael ei diffinio'n weddilliol: hynny yw, popeth nad yw wedi'i ddiffinio'n 'amser llawn'. At hynny, nodir yr olaf mewn termau braidd yn fypwyl. Er enghraifft, mae diffiniadau ffurfiol HESA yn seiliedig ar yr union niferoedd o oriau cyswllt yr wythnos ac wythnosau mynychu yn ystod y flwyddyn; felly, byddai rhywun sy'n mynychu sefydliad addysg uwch am 23 wythnos yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddisbarthu'n fyfyrwr rhan amser tra byddai rhywun sy'n mynychu am 24 wythnos yn fyfyrwr llawn amser.¹

Mae hefyd yn wir nodi bod cryn heterogenedd o fewn addysg uwch ran amser. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o raglenni o raddau ôl-raddedig (yn seiliedig ar ymchwil ac a addysgir), i raddau bagloriaeth neu raddau cyntaf, graddau sylfaen, diplomâu a thystysgrifau addysg uwch, diplomâu a thystysgrifau cenedlaethol uwch, yn ogystal â phob math o gymwysterau galwedigaethol. Mae hefyd niferoedd mawr o fyfyrwyr rhan amser nad ydynt yn ceisio ennill cymhwyster ffurfiol o gwbl (er enghraifft, mewn rhai mathau o ddarpariaeth yn seiliedig ar waith) (er enghraifft, Maguire, 2013). Felly, nid yw'n syndod bod y cymhellion dros ymgymryd ag astudio'n rhan amser yn amrywio cryn dipyn, o ran cefndiroedd addysgol a chefndiroedd cymdeithasol ehangach myfyrwyr rhan amser, eu profiadau dysgu yn ogystal ag effeithiau eu hastudiaethau ar eu bywydau yn ddiweddarach.

Nid oes ffordd syml o ddatrys yr amwysedd hwn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen ystyried hyn wrth ddehongli data ystadegol a chanlyniadau gwaith ymchwil blaenorol. Yn sicr, mae angen inni fod yn hynod ofalus wrth gyffredinoli ynglŷn â 'sector rhan amser' tybiannol ac wrth wahaniaethu'n bendant iawn rhwng addysg uwch ran amser a llawn amser. Yn anochel, mae i hyn oblygiadau pwysig o ran datblygu polisiau.

¹ <https://www.hesa.ac.uk/content/view/1902/#mode>

Cyfranogiad Rhan Amser mewn Addysg Uwch yng Nghymru: dadansoddiad disgrifiadol

Mae'r adran hon yn nodi dadansoddiad disgrifiadol cychwynnol o dueddiadau diweddar ym maes addysg uwch ran amser, yn seiliedig ar ddiffiniadau ffurfiol HESA o'r olaf.² Mae'n seiliedig yn bennaf ar fyfyrwyr sy'n hano o Gymru, y mae rhai ohonynt yn astudio mewn sefydliadau y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r dadansoddiad yn ystyried myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliadau yng Nghymru, y mae rhai ohonynt yn byw y tu allan i Gymru. Gan gadw'r *cafeatau* a nodir yn yr adran flaenorol mewn cof, un nodwedd ar ein dadansoddiad yw ei fod yn gwahaniaethu rhwng grwpiau gwahanol o fyfyrwyr rhan amser o ran y math o raglen y maent wedi'u cofrestru i'w hastudio.

Data HESA: diffiniadau

Rydym yn defnyddio'r dulliau canlynol o ddiffinio'r grŵp sampl o fyfyrwyr:

- Pob myfyriwr sy'n hano o Gymru yn setiau data HESA o 2007/08, 2008/09, 2009/10, 2010/11, 2011/2012 a 2012/13;
- Pob myfyriwr sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn setiau data HESA o 2007/08, 2008/09, 2009/10, 2010/11, 2011/2012 a 2012/13;
- 'Achosion' a ddsberthir yn rhan amser yn swyddogol a'r rhai mewn darpariaeth barhaus addysg bellach (mewn sefydliadau addysg uwch) (gan ddefnyddio newidyn XMODE01)³;
- Pob 'achos' dros y cyfnod o amser (hyd yn oed os golyga hyn fod yr un myfyriwr yn ymddangos fwy nag unwaith, er y byddwn yn ystyried goblygiadau hyn yn y dadansoddiad);
- Dim ond y flwyddyn gyntaf o bob 'achos' yn y cyfnod adrodd a gynhwysir (gan ddefnyddio XFYRSR01), hynny yw, pob achos *newydd* yn y cyfnod o amser.

Y rheswm dros ddefnyddio 'achosion' yma, ac nid myfyrwyr unigryw, yw y gall myfyrwyr ymgymryd â mwy nag un cwrs dros y cyfnod o bedair blynedd. Cofnodir pob 'achos' ar un o bum lefel (gan ddefnyddio XLEV501):

1. Ôl-raddedig (ymchwil)
2. Ôl-raddedig (a addysgir)
3. Gradd gyntaf
4. Myfyrwyr israddedig eraill
5. Addysg bellach.

Patrymau Newid mewn Niferoedd Rhan Amser

² Rydym yn ddiolchgar i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru sydd wedi darparu'r data hyn inni at ddibenion y dadansoddiad hwn.

³ Mae 'rhan amser' yn cynnwys y rhai sy'n astudio'n rhan amser ac sy'n cael eu rhyddhau am gyfnodau, y rhai sy'n astudio gyda'r nos yn unig, a'r rhai sy'n astudio'n llawn amser am lai na 24 wythnos yn ystod y flwyddyn academaidd. *Nid* yw cynnwys myfyrwyr rhyngosod.

Ceir cyfanswm o 298,566 o ‘achosion’ rhan amser dros y cyfnod o chwe blynedd a 210,105 o fyfyrwyr unigryw (70 y cant o bob ‘achos’ yn ystod y cyfnod hwn). Cyflwynir dadansoddiad o nifer yr ‘achosion’ dros amser ac yn ôl lefel yn Nhabl 1. Dengys hwn fod nifer y myfyrwyr gradd gyntaf rhan amser wedi cynyddu 25 y cant dros y cyfnod o chwe blynedd. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 15 y cant yn nifer yr ‘achosion’ rhan amser ar gyrsiau israddedig eraill. Mae’n werth nodi hefyd bod nifer yr ‘achosion’ rhan amser ar gyrsiau addysg bellach wedi cynyddu cryn dipyn dros yr un cyfnod, o tua 14 y cant (ond, fel y dengys Tabl 2, gellir priodoli hyn i’r twf mewn Cymraeg i Oedolion yn bennaf).

Tabl 1: Nifer yr Achosion Rhan Amser sy’n Hanu o Gymru, 2007/08 i 2012/13

Lefel	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	CYFANSWM	% y newid*
Pob								
Myfyriwr Ôl-raddedig	4,758	4,672	4,783	4,598	4,128	4,689	27,628	-6.5
Gradd gyntaf	2,633	3,014	3,257	3,303	3,450	3,627	19,284	25.3
Myfyrwr israddedig eraill	19,921	19,436	17,262	17,171	17,221	16,293	107,304	-14.8
<i>Pob Myfyriwr Israddedig</i>	22,554	22,450	20,519	20,474	20,671	19,920	126,588	-9.8
AB mewn AU	22,329	23,923	20,523	25,090	28,260	24,225	144,350	13.5

* Fe’i cyfrifir fel y newid % rhwng 2007/08 + 2008/09 a 2011/12 + 2012/13.

Mae’r dadansoddiad manylach o’r mathau o gyrsiau (a ddiffinnir yn nhermau cymwysterau yr anelir atynt) a ddangosir yn Nhabl 2 yn datgelu gwahaniaethau pwysig eraill dros amser, sy’n pwysleisio heterogenedd y ‘sector’ rhan amser. Er enghraifft, er bod nifer y graddau cyntaf rhan amser wedi cynyddu dros amser (gweler Tabl 1), dengys Tabl 2 fod nifer yr ‘achosion’ sy’n anelu at gwrs NVQ Lefel 6 wedi lleihau bron pumed ran (-19.4 y cant), y gellir ei briodoli’n bennaf i leihad sylweddol yn nifer y Diplomâu Lefel H. I’r gwrthwyneb, er bod nifer yr ‘achosion’ yn y categori arall o fyfyrwyr israddedig wedi lleihau’n sylweddol (Tabl 1), mae hyn yn celu cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy’n dilyn cyrsiau sy’n anelu at NVQ Lefel 5 (Tabl 2).

Tabl 2: Nodau Cwrs yr Achosion Rhan Amser sy’n Hanu o Gymru rhwng 2007/08 a 2012/13

Nod Cwrs	Nifer yr Achosion	% y newid*
Cymraeg i Oedolion†	131,878	18.5
Lefel Mynediad	2,295	-46.3
NVQ1	3,374	-65.3
NVQ2	4,300	49.7
NVQ3	2,503	-54.7

NVQ4	71,384	-8.7
NVQ5	12,668	23.5
NVQ6	42,517	-19.4
NVQ7	26,346	-6.7
NVQ8	1,301	-4.0
<i>Cyfanswm</i>	298,566	1.2

* Fe'i cyfrifir fel y newid % rhwng 2007/08 + 2008/09 a 2011/12 + 2012/13.

† Mae hyn yn cynnwys tua 1,000 o achosion heb nod o ennill cymhwyster ffurfiol.

Yn gryno, felly, nid oes unrhyw batrwm cyson o newid dros y 'sector' addysg uwch ran amser. Mae mathau gwahanol o addysg uwch ran amser wedi dangos tueddiadau datblygu gwahanol iawn dros y cyfnod dan sylw, gan adlewyrchu cymhlethdod y ffactorau sy'n dylanwadu ar lefelau cyfranogi. Rydym o'r farn bod hwn yn bwynt pwysig nad yw astudiaethau blaenorol sy'n hynod werthfawr fel arall wedi'i gydnabod ddigon (er enghraifft, Williams, 2010).

Dwysedd Astudio

Yn yr adran hon, rydym yn ystyried dwysedd cyfranogi ymhlith myfyrwyr addysg uwch ran amser sy'n hanu o Gymru. Caiff hyn ei fesur fel pob elfen y mae myfyriwr wedi'i gofrestru i'w hastudio ym mhob blwyddyn sy'n gyfwerth ag amser llawn. Caiff y rhain eu cyfuno i roi cyfanswm mesur o bob 'achos' o fyfyriwr (ym mhob blwyddyn) sy'n gyfwerth ag amser llawn (CAL). Mae hyn yn sylweddol, gan fod cymhwysedd i gael cymorth ariannol i fyfyrwyr yn amodol ar unigolion yn cyrraedd trothwyon dwysedd. At hynny, ceir goblygiadau pwysig i sefydliadau addysg uwch o ran y sefydliad a chostau darpariaeth.

Mae CAL cyfartalog myfyrwyr rhan amser yn amrywio yn ôl lefel y cymhwyster. Ar gyfer ymchwil ôl-raddedig mae'n 0.51 (neu 51%); ar gyfer cwrs ôl-raddedig a addysgir 0.33; gradd gyntaf 0.41; myfyrwyr israddedig eraill 0.28; ac ar gyfer addysg bellach mewn addysg uwch 0.08. Hynny yw, po isaf fo lefel y cymhwyster a astudir, yr isaf yw lefel dwysedd astudio'r cymhwyster hwn.

Mae Tabl 3 yn amlinellu cyfanswm CAL ar gyfer pob 'achos' o fyfyriwr rhan amser dros amser. Mae'r tueddiadau dros amser yn debyg i'r rhai a gyflwynir yn Nhabl 1 ar gyfer nifer yr 'achosion' o fyfyrwyr. Fodd bynnag, ymddengys bod y gyfradd newid dros amser yn fwy nodedig. Felly, er enghraifft, gostyngodd cyfanswm CAL ar gyfer myfyrwyr israddedig eraill 29.8 y cant rhwng 2007/08 a 2012/13, o gymharu â chyfanswm gostyngiad o 14.8 y cant yn y nifer absoliwt o 'achosion' o fyfyrwyr. I'r gwrthwyneb, cynyddodd cyfanswm CAL myfyrwyr gradd gyntaf 32.6 y cant dros yr un cyfnod, o gymharu â chynnydd o 25.3 y cant yn nifer yr 'achosion' o fyfyrwyr. Yn y ddau achos, yr un yw cyfeiriad y newid, ond mae maint y newid yn fwy nodedig o'i gyfrifo drwy ddefnyddio CAL.

Tabl 3: CAL 'Achosion' o Fyfyrwyr Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru, 2007/08 i 2012/13

Lefel	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	CYFANSWM	% y newid*
Pob	1,719	1,592	1,617	1,517	1,384	1,489	9,318	-13.2


Myfyriwr Ôl-raddedig								
Gradd gyntaf	1,091	1,172	1,322	1,310	1,368	1,633	7,896	32.6
Myfyrwyr israddedig eraill	5,842	6,291	5,443	4,234	4,410	4,184	30,404	-29.8
<i>Pob Myfyriwr Israddedig</i>	6,933	7,463	6,765	5,544	5,778	5,817	38,300	-19.5
AB mewn AU	1,665	1,979	1,942	1,918	2,317	1,875	11,696	15.0

* Fe'i cyfrifir fel y newid % rhwng 2007/08 + 2008/09 a 2011/12 + 2012/13.

Mae ychydig o dan 30 y cant o'r holl fyfyrwyr rhan amser israddedig yn astudio ar gyrsiau sydd â dwysedd o 0.5 neu fwy. Mae 41 y cant o fyfyrwyr gradd gyntaf yn astudio ar 0.5 neu fwy, ond dim ond 28 y cant o fyfyrwyr israddedig eraill sy'n astudio ar y lefel hon o ddwysedd.

Dengys Ffigur 1 y berthynas rhwng lefel y cwrs, oedran a dwysedd astudio (fel y'u mesurir yn ôl CALI cyfunol o 'achos' y myfyriwr). Dengys hyn ddau beth. Yn gyntaf, dengys fod myfyrwyr gradd gyntaf yn fwy tebygol o astudio ar lefel ddwysach na myfyrwyr israddedig eraill. Yn ail, dengys fod myfyrwyr 18-39 oed yn fwy tebygol o astudio ar lefel ddwysach na myfyrwyr hŷn ar gyrsiau cyfatebol.

Ffigur 1: CALI 'Achosion' o Fyfyrwyr Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru yn ôl Lefel y Cwrs ac Oedran (2007/08 i 2012/13)



Dengys Tabl 4 dueddiadau mewn pynciau a astudir gan fyfyrwyr israddedig rhan amser sy'n hanu o Gymru ar sail lefel eu dwysedd astudio. Dengys hyn fod CALI myfyrwyr rhan amser sy'n astudio pynciau STEM wedi parhau'n eithaf cyson dros amser (ac mae'n cyfrif am ychydig o dan 31 y cant o'r holl fyfyrwyr rhan amser CALI). Mae'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr rhan amser sy'n hanu o Gymru yn astudio pynciau gwyddor gymdeithasol (37 y cant yn gyffredinol); ond bu

gostyngiad o 14 y cant mewn niferoedd CALI dros amser. Ymddengys mai'r pynciau lle ceir y gostyngiadau mwyaf (o'u mesur ar sail dwysedd) yw'r rhai sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau a'r dyniaethau. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod llawer o'r rhain wedi'u hailddosbarthu'n 'gyfunol'. Ond hyd yn oed pe bai'r ffigurau pwnc hyn yn cael eu cyfuno maent yn cyfateb i ostyngiad o 37 y cant mewn niferoedd CALI dros y cyfnod o chwe blynedd.

Tabl 4: CALI Pynciau a Astudir gan Fyfyrrwyr Israddedig Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru, 2007/08 i 2012/13†

Lefel	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	CYFANSWM	% y newid*
STEM	2,000	2,061	1,983	1,753	1,987	1,943	11,727	-3.2%
Gwyddorau Cymdeithasol	2,600	2,476	2,430	2,208	2,185	2,173	14,072	-14.1%
Y Celfyddydau a'r Dyniaethau	1,870	565	530	450	417	456	4,288	-64.1%
Cyfun	462	2,363	1,822	1,132	1,189	1,244	8,212	-13.9%
Pob Myfyriwr Israddedig	6,932	7,465	6,765	5,543	5,778	5,816	38,299	-19.5%

† Wedi'i bwysoli yn ôl CALI yr 'achos' o fyfyriwr ac yn ôl CALI y pwnc a astudir. Fodd bynnag, ni chaiff y pwysoliadau eu cyfrifo ar gyfer pob pwnc ac felly dylid trin y ffigurau yn ofalus.

* Fe'i cyfrifir fel y newid % rhwng 2007/08 + 2008/09 a 2011/12 + 2012/13.

Nodweddion Myfyrrwyr Rhan Amser

Mae HESA yn cofnodi'r cymhwyster uchaf ar adeg mynediad i bob myfyriwr. Mae hyn yn ein galluogi i gymharu'r Lefel NVQ a enillir gan fyfyrwyr rhan amser sy'n hanu o Gymru cyn dechrau ar eu cwrs presennol gyda nod cymhwyster y cwrs rhan amser presennol hwn. Awgryma hyn fod tua 30 y cant o'r holl fyfyrwyr rhan amser (heb gynnwys myfyrrwyr Cymraeg i Oedolion na myfyrrwyr Mynediad) yn ceisio ennill cymhwyster ar yr un lefel neu lefel is na'u cymhwyster uchaf cyn hynny. O blith myfyrrwyr rhan amser sy'n hanu o Gymru ar gyrsiau addysg bellach, mae 33 y cant yn astudio ar gyfer cymwysterau ar lefel gyfatebol neu is; ac o blith myfyrrwyr ar gyrsiau israddedig, mae 37 y cant yn astudio ar gyfer cymwysterau ar lefel gyfatebol neu is. Mae'r lleiafrifoedd sylweddol hyn yn debygol o adlewyrchu rôl bwysig darpariaeth addysg uwch ran amser o ran hyrwyddo caffael sgiliau proffesiynol a sgiliau galwedigaethol eraill. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir dweud bod 92 y cant o'r rhai sydd â lefel cymhwyster uchaf flaenorol ar NVQ Lefel 2 ac mae 96 y cant o'r rhai ar Lefel 3 wedi mynd yn eu blaen i ddilyn cyrsiau israddedig rhan amser ar NVQ Lefelau 4 i 6. Yn y ddau achos hyn, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn debyg yn fras i'r hyn a nodwyd yn y rhan eraill o'r DU (gweler isod).

Dengys Tabl 5 fod y rhan fwyaf o fyfyrwyr rhan amser yn fenywod. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ychydig yn agosach ymhlith myfyrrwyr gradd gyntaf rhan amser.

Tabl 5: Rhyw Myfyrrwyr Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru, 2007/08 i 2012/13

Lefel	% y myfyrrwyr unigol	
	Gwryw	Benyw
Pob Myfyriwr Ôl-	37.1	62.9

raddedig		
Gradd Gyntaf	41.1	58.9
Myfyrwyr israddedig eraill	36.9	63.1
<i>Pob myfyrwr israddedig</i>	<i>35.8</i>	<i>64.2</i>
Addysg bellach	32.7	67.3

Ceir gwahaniaethau pwysig ym mhroffil oedran myfyrwyr rhan amser yn ôl lefel eu cwrs (gweler Tabl 6). Mae myfyrwyr sy'n ymgofrestru ar gyfer gradd gyntaf yn tueddu i fod yn iau na myfyrwyr sy'n ymgofrestru i ddilyn cyrsiau israddedig eraill a chyrsiau addysg bellach.

Tabl 6: Proffil Oedran Myfyrwyr Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru, 2007/08 i 2012/13

Lefel	Oedran cyfartalog	% y myfyrwyr unigol	
		18-39 oed	40 oed neu'n hŷn
Gradd Gyntaf	34.2	68.3	30.9
Myfyrwyr israddedig eraill	36.7	53.7	39.8
Addysg bellach	43.2	41.5	55.5

Dengys dadansoddiad pellach fod proffil oedran myfyrwyr rhan amser hefyd yn newid dros amser. Er enghraifft, dengys Tabl 7 fod mwy o fyfyrwyr o dan 40 oed mewn rhaglenni gradd gyntaf a rhaglenni eraill i israddedigion fel canran yn 2012/13 nag yr oedd yn 2007/08. Dengys Tabl 8 hefyd y gellir priodoli hyn i ddwy duedd yn bennaf: cyfradd uwch o gynnydd yn nifer y myfyrwyr gradd gyntaf rhan amser rhwng 18 a 39 oed; a chyfradd lai o ostyngiad yn nifer y myfyrwyr israddedig eraill rhan amser o dan 40 oed o'u cymharu â'r rhai dros 40 oed.

Tabl 7: Proffil Oedran Myfyrwyr Rhan Amser dros Amser

Lefel	% y myfyrwyr 18-39 oed					
	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
Gradd Gyntaf	65.1	66.5	68.4	68.9	69.9	69.9
Myfyrwyr israddedig eraill	50.4	53.5	56.2	55.2	56.0	51.5
AB (mewn AU)	39.9	43.9	39.3	46.1	46.2	36.1

Tabl 8: Newidiadau o ran Myfyrwyr Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru rhwng 2007/08 a 2012/13 yn ôl Oedran

Lefel	% y newid yn nifer y myfyrwyr*	
	18-39 oed	40 oed neu'n hŷn
Gradd Gyntaf	40.3	20.3
Myfyrwyr	-3.0	-11.7

israddedig eraill		
AB (mewn AU)	6.8	13.3

* Fe'i cyfrifir fel y newid % rhwng 2007/08 + 2008/09 a 2011/12 + 2012/13.

Yn gyffredinol, mae ychydig o dan 90 y cant o'r holl fyfyrwyr israddedig rhan amser yn 'Wyn Prydeinig'; mae 5.3 y cant wedi'u dosbarthu'n 'Prydeinig nad ydynt yn Wyn'. Mae cefndir ethnig y gweddi, sef 5.1 y cant, yn anhysbys. Mae cefndir ethnig myfyrwyr rhan amser wedi aros yn eithaf cyson dros amser (gweler Tabl 9). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod canran cyfanswm y boblogaeth yng Nghymru sy'n dod o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi codi'n gyson, o 2.1 y cant yn 2001 i 4.1 y cant yn 2009.⁴

Tabl 9: Ethnigrwydd Myfyrwyr Rhan Amser dros Amser

Lefel	% y myfyrwyr 'Gwyn Prydeinig'					
	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
Gradd						
Gyntaf	89.2	89.3	91.2	93.5	93.1	91.2
Myfyrwyr israddedig eraill	90.1	89.5	89.2	89.3	89.0	89.3
AB (mewn AU)	50.6†	72.3	90.8	88.3	89.9	81.1

† Mae'n bwysig nodi bod cyfran y myfyrwyr heb eu dosbarthu yn 2007/08 yn 21.7%. Yn 2008/09 gostyngodd hyn i 11.5%, ac erbyn 2011/12 dim ond 4.9% ydoedd.

Dros y cyfnod o chwe blynedd dan sylw yma, nid oedd gan 72.8 y cant o'r holl fyfyrwyr israddedig rhan amser sy'n huanu o Gymru unrhyw anabledd hysbys. Cofnodwyd cyfrannau uwch ar gyfer yr holl fyfyrwyr israddedig eraill (86.4 y cant) a myfyrwyr addysg bellach (mewn addysg uwch) (82.3 y cant). Fodd bynnag, fel y mae Tabl 10 yn datgelu, mae'r ffigurau hyn yn debygol o oramcangyfrif cyfran y dysgwyr rhan amser sydd ag anabledd oherwydd y gyfran uchel o ddysgwyr 'heb eu dosbarthu' yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf o'r data. Felly, mae cyfran y myfyrwyr heb anabledd hysbys dipyn yn uwch tua diwedd y cyfnod hwn. Serch hynny, mae'r dadansoddiad hwn yn datgelu bod myfyrwyr gradd gyntaf rhan amser yn fwy tebygol o fod ag anabledd hysbys na myfyrwyr israddedig rhan amser a myfyrwyr addysg bellach (mewn sefydliadau addysg uwch) eraill.

Tabl 10: Anabledd Myfyrwyr Rhan Amser dros Amser

Lefel	% y myfyrwyr sy'n nodi nad oes ganddynt unrhyw anabledd hysbys					
	2007/08†	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
Gradd	51.4	50.2	61.9	89.9	87.9	84.8

⁴ <http://gov.wales/statistics-and-research/population-estimates-ethnicity/?lang=cy>. Cyhoeddwyd yn 2011.

Gyntaf						
Myfyrwyr israddedig eraill	82.2	79.6	81.8	92.4	92.5	91.0
AB (mewn AU)	45.5	85.6	83.2	94.6	94.7	91.5

† Mae'n bwysig nodi bod cyfran y myfyrwyr heb eu dosbarthu yn 2007/08 yn 25.2% yn gyffredinol, gan gynnwys 41% o'r holl fyfyrwyr gradd gyntaf a 50% o'r holl fyfyrwyr AB (mewn AU).

Daearyddiaeth Cyfranogiad Rhan Amser

Mae'r mwyafrif llethol o fyfyrwyr rhan amser sy'n hanu o Gymru wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (gweler Tabl 11). Fodd bynnag, mae cyfran y myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru i ddilyn cyrsiau israddedig mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn is; ac ar gyfer myfyrwyr gradd gyntaf, mae ychydig dros draean wedi'u cofrestru mewn sefydliadu yng Nghymru.

Tabl 11: Ble mae Myfyrwyr Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru wedi'u Cofrestru, %

Lefel	% o 'achosion'	
	Yng Nghymru	Y tu allan i Gymru
Pob Myfyriwr Ôl- raddedig	64.4	35.6
Gradd Gyntaf	34.6	65.4
Myfyrwyr israddedig eraill	79.2	20.8
<i>Pob myfyriwr israddedig</i>	<i>72.4</i>	<i>27.6</i>
AB (mewn AU)	99.0	1.0

Y prif esboniad dros y niferoedd ymddangosiadol o uchel o fyfyrwyr gradd gyntaf, sy'n hanu o Gymru sydd wedi'u cofrestru y tu allan i Gymru yw lleoliad cofrestredig y Brifysgol Agored (yn Ne-ddwyrain Lloegr). Fel y dengys Tabl 12, mae dros hanner y myfyrwyr gradd gyntaf yn astudio gyda'r Brifysgol Agored drwy ddysgu o bell (11,482). Nid oes modd dweud a oes unrhyw rai o'r myfyrwyr eraill yn astudio drwy ddysgu o bell hefyd. Mae'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr israddedig eraill wedi'u cofrestru ym Mhrifysgol Caerdydd (18,829); ac mae'r mwyafrif llethol o fyfyrwyr addysg bellach mewn addysg uwch (heb gynnwys Cymraeg i Oedolion) wedi'u cofrestru ym Mhrifysgol Morgannwg (Prifysgol De Cymru bellach) (11,699).

Tabl 12: Myfyrwyr Rhan Amser sy'n hangu o Gymru sydd wedi'u Cofrestru yn y 5 SAU Uchaf, %

Gradd Gyntaf		Myfyrwyr israddedig eraill		Addysg Bellach (mewn AU) (heb gynnwys Cymraeg i Oedolion)	
Prifysgol	%	Prifysgol	%	Prifysgol	%
Y Brifysgol Agored	59.5	Prifysgol Caerdydd	17.5	Prifysgol Morgannwg	93.8
Prifysgol Morgannwg	11.0	Prifysgol Morgannwg	15.8	Prifysgol Cymru, Casnewydd	1.7
Prifysgol Cymru, Casnewydd	6.3	Prifysgol Cymru, Casnewydd	13.5	Prifysgol Fetropolitan Abertawe	1.4
Prifysgol Glyndŵr	4.1	Y Brifysgol Agored	12.8	Prifysgol y Celfyddydau, Llundain	0.9
Prifysgol Abertawe	4.0	Prifysgol Abertawe	9.0	Coleg Prifysgol Birmingham	0.8

Ymddengys fod cryn amrywiadau yn nifer yr achosion o fyfyrwyr israddedig addysg uwch rhan amser yn ôl awdurdod lleol. Yn ôl y cymarebau a gyflwynir yn Nhabl 13, mae oedolion sy'n byw yng Ngheredigion tua dwywaith yn fwy tebygol o fod wedi'u cofrestru ar gyfer cwrs israddedig rhan amser nag oedolion sy'n byw yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae llawer o'r amrywiad hwn yn ymwneud â nifer y myfyrwyr rhan amser sy'n dilyn cyrsiau israddedig eraill, gan nad yw'r gymhareb rhwng myfyrwyr gradd gyntaf rhan amser yn amrywio'n fawr iawn yn ôl awdurdod lleol. Yn wir, mae cymhareb myfyrwyr gradd gyntaf rhan amser yn y ddau awdurdod lleol uchod yr un fath. Ceir cryn amrywiadau hefyd rhwng awdurdodau lleol yn y gymhareb o ddysgwyr rhan amser sy'n dilyn cwrs addysg bellach mewn sefydliadau addysg uwch. Er enghraifft, dros y cyfnod o chwe blynedd a ddadansoddir yma, rydym yn amcangyfrif bod 266 o 'achosion' newydd ar gyrsiau addysg bellach mewn sefydliadau addysg uwch ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion ym Merthyr Tudful.

Yn yr un modd, ceir amrywiadau daearyddol sylweddol yn y newidiadau yn nifer yr 'achosion' israddedig rhan amser dros amser (fel y noda colofn olaf Tabl 13). Mae nifer yr 'achosion' israddedig rhan amser dros amser o rai awdurdodau lleol, yn enwedig yn y gogledd (Ynys Môn, Wrecsam a Gwynedd), wedi gostwng yn sylweddol. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, mae nifer y myfyrwyr israddedig rhan amser o Flaenau Gwent a Thorfaen wedi cynyddu dros 40 y cant dros y cyfnod o chwe blynedd. Fodd bynnag, amser a ddengys i ba raddau y gellir priodoli'r newidiadau olaf i ymyriadau polisi penodol, megis UHOVI.

Tabl 13: Daearyddiaeth Myfyrwyr Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru, 2007/08 i 2012/13

Awdurdod Lleol	Cymhareb fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion (16-64)†			% y Newid	
	Gradd Gyntaf	Myfyrwyr israddedig eraill	AB (mewn AU)	Pob Myfyriwr Israddedig	Pob Myfyriwr Israddedig*
Ceredigion	9	89	179	98	-25.6
Caerdydd	9	75	43	85	1.8
Sir Gaerfyrddin	10	68	82	78	-16.0
Blaenau Gwent	10	61	8	71	40.9
Bro Morgannwg	10	57	42	67	-6.0
Abertawe	10	57	54	67	-18.0
Sir Benfro	13	53	109	66	-1.0
Castell-nedd Port					-26.5
Talbot	11	53	52	64	
Sir Fynwy	10	53	6	63	-2.1
Merthyr Tudful	9	54	266	62	-10.0
Powys	11	50	97	61	-18.2
Torfaen	8	52	4	60	48.4
Rhondda Cynon Taf	9	50	53	59	-9.1
Ynys Môn	10	49	154	59	-32.2
Casnewydd	10	49	5	58	-1.3
Pen-y-bont ar Ogwr	12	46	48	58	-0.5
Sir Ddinbych	11	45	157	56	2.8
Caerffili	9	47	13	56	1.6
Conwy	10	45	192	55	-13.7
Gwynedd	9	43	206	52	-25.9
Wrecsam	9	40	64	49	-26.1
Sir y Fflint	9	37	91	46	-20.6

† Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio amcangyfrifon 2011 o'r boblogaeth ar gyfer oedolion sy'n gweithio yn ôl awdurdod lleol.

* Fe'i cyfrifir fel y newid % rhwng 2007/08 + 2008/09 a 2011/12 + 2012/13.

Roedd canran y dysgwyr israddedig rhan amser sy'n hanu o Gymru o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf dros y cyfnod cyfan rhwng 2007/08 a 2012/13 yn 19.2 y cant. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio rhwng 22.7 y cant o'r holl fyfyrwyr gradd gyntaf ac 18.6 y cant o'r holl fyfyrwyr israddedig eraill, gyda dim ond 14.0 y cant o fyfyrwyr addysg bellach mewn addysg uwch yn dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae cyfran y myfyrwyr israddedig rhan amser o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi cynyddu 10 y cant dros y cyfnod o chwe blynedd. O ganlyniad i'r cynnydd hwn mewn niferoedd o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ond hefyd y gostyngiad absoliwt yn nifer y dysgwyr rhan amser o ardaloedd eraill, mae cyfran y myfyrwyr israddedig rhan amser o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi cynyddu'n sylweddol dros y chwe blynedd (gweler Tabl 14).

Tabl 14: Myfyrwyr Rhan Amser o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf

Lefel	% y myfyrwyr yn dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf						Cyfanswm
	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	
Pob Myfyriwr							19.2
Israddedig	17.3	17.8	18.5	20.0	20.7	21.6	

Pynciau a astudir

Dengys Tabl 15 nifer a dosbarthiad yr ‘achosion’ o fyfyrwyr israddedig rhan amser sy’n hanu o Gymru yn ôl maes pwnc y System Cyd-godio Pynciau Academaidd. Mae’r gyfran fwyaf o ‘achosion’ o fyfyrwyr israddedig rhan amser yn astudio pynciau sy’n gysylltiedig ag addysg (17 y cant o’r holl fyfyrwyr israddedig), wedi’i dilyn gan bynciau sy’n gysylltiedig â meddygaeth (11 y cant). Fodd bynnag, mae’r nifer mwyaf o fyfyrwyr gradd gyntaf rhan amser yn astudio pynciau cyfun, a all gynnwys cyrsiau cyfun, cyffredinol neu fodiwlaid.

Er gwaethaf y niferoedd mawr o ‘achosion’ o fyfyrwyr israddedig rhan amser mewn Addysg, bu gostyngiad o 10 y cant dros y cyfnod o chwe blynedd (colofn olaf, Tabl 18). Mae ieithoedd wedi gweld gostyngiad o 72 y cant mewn ‘achosion’. Mewn gwrthgyferbyniad, mae peirianeg a thechnoleg, gwyddoniaeth gyfrifiadurol a’r celfyddydau creadigol a dylunio oll wedi gweld cynnydd o 70 y cant mewn achosion o fyfyrwyr israddedig rhan amser sy’n hanu o Gymru dros y chwe blynedd.

Tabl 15: Nifer a Dosbarthiad yr ‘Achosion’ o Fyfyrwyr Israddedig Rhan Amser sy’n Hanu o Gymru yn ôl Pwnc

Pwnc	Gradd Gyntaf	Myfyrwyr israddedig eraill	Pob Myfyriwr Israddedig		
			Nifer	%	% y Newid*
Meddygaeth a deintyddiaeth	1	22	23	0.0	-
Pynciau sy’n gysylltiedig â meddygaeth	2,112	12,183	14,295	11.3	5.6
Gwyddorau biolegol	1,734	1,520	3,254	2.6	8.3
Gwyddoniaeth filfeddygol	0	3	3	0.0	-
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiol	30	1,506	1,536	1.2	-17.7
Gwyddorau ffisegol	590	1,323	1,913	1.5	-3.2
Gwyddorau mathemategol	358	343	701	0.6	6.6
Cyfrifiadureg	795	2,641	3,436	2.7	20.5
Peirianeg a thechnoleg	1,416	5,198	6,614	5.2	70.1
Pensaerniaeth, adeiladu a chynllunio	574	2,268	2,842	2.2	7.8
Astudiaethau cymdeithasol	1,881	9,756	11,637	9.2	-12.3
Y Gyfraith	506	329	835	0.7	2.5
Astudiaethau busnes a gweinyddol	1,402	9,152	10,554	8.3	-22.0
Cyfathrebu torfol a dogfennu	36	237	273	0.2	22.7
Ieithoedd	789	8,192	8,981	7.1	-71.7
Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol	1,560	886	2,446	1.9	7.9

Celfyddydau creadigol a dylunio	370	1,177	1,547	1.2	69.2
Addysg	1,390	20,065	21,455	16.9	-10.2
Cyfun	3,742	30,505	34,247	27.1	-4.8
Cyfanswm	19,286	107,306	126,592	100.0	-9.8

* Fe'i cyfrifir fel y newid % rhwng 2007/08 + 2008/09 a 2011/12 + 2012/13. Caiff y niferoedd hyn eu pwysoli er adlewyrchu cymwysterau cyfun.

Mae Tabl 16 yn nodi rhai nodweddion allweddol myfyrwyr israddedig yn ôl pwnc. Dengys hyn, er enghraifft, wahaniaethau rhwng y rhywiau yn ôl pwnc. Mae rhai pynciau wedi'u dominyddu gan wrywod: peirianeg a thechnoleg; pensaerniaeth, adeiladu a chynllunio; gwyddorau ffisegol; cyfrifiadureg; ac eraill gan fenywod: pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth (gan gynnwys nyrsio); addysg; astudiaethau cymdeithasol; ieithoedd; gwyddorau biolegol; astudiaethau hanesyddol ac athronyddol; pynciau cyfun; a'r celfyddydau creadigol a dylunio.

Dengys Tabl 16 hefyd gyfran y myfyrwyr ym mhob pwnc a oedd yn dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Dengys hyn, er enghraifft, fod myfyrwyr israddedig rhan amser o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn fwy tebygol o astudio pynciau astudiaethau cymdeithasol a chyfrifiadureg. Mewn gwrthgyferbyniad, maent yn llai tebygol o astudio amaethyddiaeth, ieithoedd ac addysg.

Tabl 16: Nodweddion Myfyrwyr Israddedig Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru yn ôl Pwnc, %

Pwnc	% Benyw	% Cymunedau yn Gyntaf
Meddygaeth a deintyddiaeth	-	-
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	86.1	16.7
Gwyddorau biolegol	66.9	18.8
Gwyddoniaeth filfeddygol	-	-
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiol	51.6	9.4
Gwyddorau ffisegol	34.8	18.8
Gwyddorau mathemategol	45.4	18.4
Cyfrifiadureg	36.1	25.1
Peirianeg a thechnoleg	10.1	22.2
Pensaerniaeth, adeiladu a chynllunio	25.7	21.1
Astudiaethau cymdeithasol	70.6	29.6
Y Gyfraith	62.3	22.5
Astudiaethau busnes a gweinyddol	59.3	22.5
Cyfathrebu torfol a dogfennu	53.3	15.9
Ieithoedd	66.0	13.8
Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol	63.0	20.5

Celfyddydau creadigol a dylunio	62.2	16.3
Addysg	70.7	14.0
Cyfun	62.8	19.7
Cyfanswm	62.5	19.2

* Fe'i cyfrifir fel y newid % rhwng 2007/08 + 2008/09 a 2011/12 + 2012/13. Mae'r niferoedd y mae'r cyfrifiadau hyn yn seiliedig arnynt wedi'u pwysoli er mwyn adlewyrchu cymwysterau cyfun. Mae niferoedd bach wedi'u tynnu o'r tabl.

Gallwn hefyd edrych ar y pynciau a ddewisir gan fyfyrwyr israddedig rhan amser sy'n hanu o Gymru yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn byw (Tabl 17). Yma mae meysydd pwnc y System Cyd-godio Pynciau Academaidd wedi cael eu cyfuno â STEM, gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau, a phynciau cyfun. Dengys hyn, er enghraifft, fod rhai ardaloedd o Gymru lle mae'n fwy tebygol bod myfyrwyr yn astudio pynciau penodol.⁵ Mae myfyrwyr israddedig rhan amser o Geredigion ddwywaith yn fwy tebygol o astudio pynciau'r celfyddydau a'r dyniaethau na'r myfyriwr cyffredin. Yn yr un modd, mae cyfran uchel o fyfyrwyr yn Sir y Fflint yn astudio pynciau STEM. Mae myfyrwyr o Flaenau Gwent a Thorfaen yn fwy tebygol o astudio pynciau gwyddorau cymdeithasol na'r myfyriwr cyffredin. Ac mae gan Gaerdydd gyfran fawr o fyfyrwyr rhan amser sy'n dilyn cyrsiau cyfun.

Tabl 17: Cyfranogi mewn Pynciau ymhlith Myfyrwyr Israddedig Rhan Amser sy'n Hanu o Gymru yn ôl Awdurdod Lleol

% y myfyrwyr israddedig rhan amser sy'n hanu o Gymru ym mhob awdurdod lleol				
Awdurdod Lleol	STEM	Gwyddorau Cymdeithasol	Y Celfyddydau a'r Dyniaethau	Cyfun
Ynys Môn	27.9	51.5	6.2	14.4
Gwynedd	26.9	49.3	8.1	15.7
Conwy	32.5	42.5	7.5	17.5
Sir Ddinbych	39.8	35.9	8.5	15.8
Sir y Fflint	43.5	30.4	9.5	16.6
Wrecsam	39.7	29.7	17.2	13.3
Powys	26.1	41.9	12.1	19.9
Ceredigion	14.5	47.8	26.1	11.6
Sir Benfro	33.1	39.6	10.8	16.5
Sir Gaerfyrddin	25.8	39.0	9.5	25.7
Abertawe	27.1	26.3	13.5	33.2
Castell-nedd Port Talbot	31.8	30.2	9.6	28.4
Pen-y-bont ar Ogwr	34.9	35.3	8.0	21.9
Bro Morgannwg	22.6	26.7	11.7	39.0
Rhondda Cynon Taf	34.1	36.2	7.0	22.7

⁵ Mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn ystyried amrywiadau mewn lefelau cyfranogi rhan amser cyffredinol; gweler Tabl 11.

Merthyr Tudful	36.3	41.5	8.2	14.0
Caerffili	28.0	46.7	7.3	18.0
Blaenau Gwent	30.0	57.7	4.0	8.3
Torfaen	30.8	50.0	5.8	13.4
Sir Fynwy	24.9	35.5	7.7	31.8
Casnewydd	24.3	45.0	7.0	23.7
Caerdydd	14.3	16.8	12.8	56.2
Cyfanswm	27.2	34.9	10.5	27.3

Myfyrwyr Rhan Amser mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru

Rhoddir safbwynt arall ar dueddiadau mewn cyfranogi rhan amser mewn addysg uwch drwy edrych ar sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yn hytrach na myfyrwyr sy'n hana o Gymru. Os ydym yn hepgor y Brifysgol Agored o'r dadansoddiad, yna gellir gweld yn Nhabl 18 fod tua 23 y cant o fyfyrwyr israddedig rhan amser sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn hana o'r tu allan i Gymru. Daw'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr ar gyrsiau gradd gyntaf rhan amser o Loegr. Fodd bynnag, daw'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr rhan amser sy'n dilyn cyrsiau israddedig eraill o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd.

Tabl 18: Myfyrwyr Rhan Amser mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru

Gwlad Enedigol	Gradd	Myfyrwyr	AB	Pob
	Gyntaf	israddedig eraill	mewn AU	Myfyriwr Israddedig
Cymru	6,676	85,034	142,896	91,710
Lloegr	1,295	7,793	3,838	9,088
Yr Alban	76	217	26	293
Gogledd Iwerddon	10	98	5	108
Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw	2	12	3	14
Rhanbarth anhysbys o'r DU	49	566	772	615
Gwlad arall o'r UE	377	11,624	239	12,001
Gwlad y tu allan i'r UE	155	4,464	202	4,619
% o'r tu allan i Gymru	22.7	22.6	3.4	22.6

Rydym eisoes wedi gweld bod nifer y myfyrwyr sy'n hana o Gymru sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi gostwng dros y cyfnod o chwe blynedd dan sylw. Fodd bynnag, dengys Tabl 19 fod cyfradd ostwng gyflymach ymhlith myfyrwyr rhan amser o'r tu allan i Gymru. O ganlyniad, mae cyfran y myfyrwyr israddedig rhan amser sy'n astudio yng Nghymru o'r tu allan i Gymru wedi gostwng yn gyson o 26.0 y cant yn 2007/08 i 15.7 y cant yn 2012/13.

Tabl 19: Myfyrwyr Israddedig Rhan Amser mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru

Gwlad Enedigol	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	Cyfanswm
----------------	---------	---------	---------	---------	---------	---------	----------

Cymru	17,569	16,586	13,878	14,270	14,706	14,701	91,710
Lloegr	2,391	2,177	1,226	1,091	1,163	1,040	9,088
Yr Alban	116	74	31	33	24	15	293
Gogledd Iwerddon	18	35	16	6	17	16	108
G, J ac Ynys Manaw	2	6	3	0	1	2	14
Y DU anhysbys	283	148	141	24	15	4	615
Gwlad arall o'r UE	2,664	2,966	2,106	1,702	1,461	1,102	12,001
Gwlad y tu allan i'r UE	697	781	823	666	1,100	552	4,619
% o'r tu allan i Gymru	26.0	27.2	23.8	19.8	20.5	15.7	22.6

Gellir gweld y tueddiadau hyn yn Nhabl 20 hefyd, sy'n dangos llifau trawsffiniol myfyrwyr israddedig rhan amser. Er bod y nifer absoliwt o fyfyrwyr israddedig rhan amser sy'n hanu o Gymru sy'n gadael Cymru i astudio (Allforio) wedi gostwng dros amser, fel cyfran o'r holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, mae hyn wedi aros yn gymharol sefydlog, 8.5 y cant yn 2007/08 a 6.2 y cant yn 2012/13. Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr sy'n dod i astudio o'r tu allan i Gymru wedi lleihau ar gyfradd dipyn yn gyflymach. Mae hyn wedi golygu bod yr ennill net mewn niferoedd (mewnforion llai allforion) wedi gostwng dros 50 y cant o 4,543 yn 2007/08 i 1,762 yn unig yn 2012/13. Bu lleihad sylweddol yn nifer a chyfran myfyrwyr israddedig rhan amser o weddill y DU a'r Undeb Ewropeaidd, yn enwedig o Loegr (gostyngiad o 52 y cant) ac o'r tu allan i'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd (gostyngiad o 54 y cant). Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr israddedig rhan amser o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd wedi cynyddu 12 y cant, ond mae nifer absoliwt y myfyrwyr o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn dal i fod yn gymharol fach.

Tabl 20: Llifau Trawsffiniol Myfyrwyr Israddedig Rhan Amser

	2007/08	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	Cyfanswm
Yr holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru†	19,197	18,285	15,851	16,022	16,376	15,670	101,401
Yn aros yng Nghymru	17,569	16,586	13,878	14,270	14,706	14,701	91,710
% yn aros	91.5	90.7	87.6	89.1	89.8	93.8	90.4
% sy'n gadael	8.5	9.3	12.4	10.9	10.2	6.2	9.6
Nifer mewn SAUau yng Nghymru	23,740	22,773	18,224	17,792	18,487	17,432	118,448

O'r tu allan i Gymru	6,171	6,187	4,346	3,522	3,781	2,731	26,738
<i>% mewn SAUau</i>	<i>26.0</i>	<i>27.2</i>	<i>23.8</i>	<i>19.8</i>	<i>20.5</i>	<i>15.7</i>	<i>22.6</i>
Allforio	1,628	1,699	1,973	1,752	1,670	969	9,691
Mewnforio	6,171	6,187	4,346	3,522	3,781	2,731	26,738
<i>Ennill/colled net</i>	<i>4,543</i>	<i>4,488</i>	<i>2,373</i>	<i>1,770</i>	<i>2,111</i>	<i>1,762</i>	<i>17,047</i>

† Mae pob ffigur yn hepgor myfyrwyr y Brifysgol Agored.

Nesaf, rydym yn ystyried pynciau israddedig rhan amser a astudir mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (gan gynnwys y Brifysgol Agored). Dengys Tabl 21 batrwm ychydig yn wahanol i'r hyn a welir yn Nhabl 15. Mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru y pwnc a astudir amlaf ar gysiau israddedig rhan amser yw 'pynciau cyfun', sy'n adlewyrchu natur system fodiwlaid y Brifysgol Agored fwy na thebyg. Mae hyn wedi'i ddilyn gan addysg (yn debyg i'r patrwm a welir ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru) ac yna ieithoedd.

Tabl 21: Nifer a Dosbarthiad Achosion o Fyfirwyr Israddedig Rhan Amser mewn SAUau yng Nghymru (gan gynnwys y Brifysgol Agored) yn ôl Pwnc

Pwnc	Gradd Gyntaf	Myfyrwyr israddedig eraill	Pob Myfyriwr Israddedig	
			Nifer	%
Meddygaeth a deintyddiaeth	0	82	82	0.1
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	2,092	11,322	13,414	9.3
Gwyddorau biolegol	1,683	1,341	3,024	2.1
Gwyddoniaeth filfeddygol	0	0	0	0.0
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiol	31	497	528	0.4
Gwyddorau ffisegol	576	1,081	1,657	1.2
Gwyddorau mathemategol	357	220	577	0.4
Cyfrifiadureg	793	3,494	4,287	3.0
Peirianeg a thechnoleg	2,086	8,407	10,493	7.3
Pensaerniaeth, adeiladu a chynllunio	466	2,380	2,846	2.0
Astudiaethau cymdeithasol	1,807	11,055	12,862	9.0
Y Gyfraith	475	223	698	0.5
Astudiaethau busnes a gweinyddol	1,484	11,540	13,024	9.1

Cyfathrebu torfol a dogfennu	308	276	584	0.4
Ieithoedd	787	17,061	17,848	12.4
Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol	1,684	1,700	3,384	2.4
Celfyddydau creadigol a dylunio	340	1,413	1,753	1.2
Addysg	1,407	20,510	21,917	15.3
Cyfun	3,745	30,916	34,661	24.1
Cyfanswm	20,121	123,518	143,639	100.0

Caiff y niferoedd hyn eu pwysoli er adlewyrchu cymwysterau cyfun.

Mae Tabl 22 yn datblygu hyn drwy ystyried yr enillion a'r colledion net i mewn i Gymru ac allan o Gymru. Cyfrifir hyn drwy gymharu nifer yr 'achosion' o fyfyrwyr israddedig rhan amser mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn ôl pwnc, â nifer yr 'achosion' o fyfyrwyr israddedig rhan amser sy'n hanu o Gymru yn ôl pwnc. Mae'r niferoedd canlyniadol naill ai'n dangos enill net (gwerthoedd cadarnhaol) neu golled net (gwerthoedd negyddol). Yn y golofn olaf cyflwynir yr enillion/colledion net hyn fel canran yr holl 'achosion' o fyfyrwyr israddedig rhan amser sy'n hanu o Gymru er mwyn helpu i wneud cymhariaeth.

Dengys y dadansoddiad hwn, er enghraifft, fod myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio gwyddorau milfeddygol rhan amser yn astudio y tu allan i Gymru (nad yw'n annisgwyl gan nad yw gwyddorau milfeddygol ar gael yn y sector addysg uwch yng Nghymru). Ond dengys hyn hefyd fod Cymru yn allforiwr cymharol fawr o fyfyrwyr israddedig rhan amser ar gyrsiau amaethyddol. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn fewnforiwr sylweddol o fyfyrwyr israddedig rhan amser yn y cyfryngau torfol, ieithoedd a pheirianeg a thechnoleg. Mae hefyd yn mewnforio niferoedd mawr o fyfyrwyr rhan amser i astudio astudiaethau busnes a gweinyddol, ac astudiaethau cymdeithasol.

Tabl 22: Enillion a Cholledion Net Achosion o Fyfyrwyr Israddedig Rhan Amser yng Nghymru/tu allan i Gymru yn ôl Pwnc

Pwnc	Enillion neu Golledion Net	
	Nifer	%*
Meddygaeth a deintyddiaeth	59	256.5
Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth	-881	-6.2
Gwyddorau biolegol	-230	-7.1
Gwyddoniaeth filfeddygol	-3	-100.0
Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiol	-1,008	-65.6
Gwyddorau ffisegol	-256	-13.4
Gwyddorau mathemategol	-124	-17.7
Cyfrifiadureg	851	24.8

Peirianeg a thechnoleg	3,879	58.6
Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio	4	0.1
Astudiaethau cymdeithasol	1,225	10.5
Y Gyfraith	-137	-16.4
Astudiaethau busnes a gweinyddol	2,470	23.4
Cyfathrebu torfol a dogfennu	311	113.9
Ieithoedd	8,867	98.7
Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol	938	38.3
Celfyddydau creadigol a dylunio	206	13.3
Addysg	462	2.2
Cyfun	414	1.2
<hr/> Cyfanswm	<hr/> 17,047	<hr/> 13.5

Mae'r niferoedd hyn wedi'u pwysoli er mwyn adlewyrchu cymwysterau cyfun.

* Fe'i cyfrifir fel canran o achosion o fyfyrwyr sy'n hano o Gymru

Mae'r disgrifiad bras o dueddiadau mewn addysg uwch ran amser yng Nghymru a gyflwynwyd gennym yn yr adran hon yn codi nifer o gwestiynau ynglŷn â'r prosesau cymdeithasol ac economaidd sy'n sail i'r tueddiadau a ddisgrifiwyd. Yn unol â hynny, yn yr adran nesaf, rydym yn adolygu'r hyn y mae gwaith ymchwil blaenorol wedi'i ddweud wrthym am y prosesau hyn.

Gwaith Ymchwil Blaenorol

Mae polisi addysg uwch wedi cydnabod pwysigrwydd darpariaeth ran amser (sut bynnag y caiff ei diffinio) yn gynyddol. Mae hyn wedi bod yn wir yn rhyngwladol (ar lefel Ewropeaidd, er enghraifft, drwy Broses Bologna ers 1999), yn ogystal ag yn y DU. Yn sicr, mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig (gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth gwrs) oll wedi gwneud ymrwymadau cadarn i ddarpariaeth ran amser yn eu strategaethau ar gyfer addysg uwch (er enghraifft, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, 2011; Llywodraeth Cymru (2013)). Ystyrir bod yr hyblygrwydd a gynigir ganddi yn cyfrannu'n sylweddol at uwchsgilio'r llafurlu a gwelliannau canlyniadol mewn cynhyrchiant a thwf economaidd, yn ogystal â gwella rhagolygon cyflogaeth ac enillion unigolion. Dadleuwyd hefyd fod cymryd rhan mewn addysg uwch ran amser yn cael effeithiau cymdeithasol, nid yn unig drwy gyfrannu mewn ffordd bwysig tuag at 'ehangu mynediad' i addysg uwch, a thrwy hynny at gyfleoedd bywyd mwy cyfartal, ond hefyd, yn fwy cyffredinol, tuag at adfywio cymunedau a chynnal cymdeithas sifil ddemocrataidd a chynhwysol (er enghraifft, CCAUC, 2014).

Er gwaethaf y proffil cymharol uchel hwn o ran polisi, mae prinder gwaith ymchwil i addysg uwch ran amser o hyd. Gellir priodoli hyn, yn rhannol, i'r gyfran eithaf bach o fyfyrwyr rhan amser mewn llawer o sefydliadau addysg uwch (yn enwedig y rhai uchel eu bri yn gonfensiynol); yn ogystal â'r ffaith bod llawer o fyfyrwyr rhan amser wedi'u cofrestru â rhaglenni nad ydynt yn arwain at gymwysterau lefel gradd. Mae'n bosibl hefyd, oherwydd bod myfyrwyr rhan amser yn 'anweladwy', gan fynychu eu cyrsiau y tu allan i oriau gwaith 'arferol' neu gartref (Jamieson *et al.*, 2009). Beth bynnag fo'r rhesymau, mae'n amlwg bod prinder mawr o ddeunydd sy'n ymwneud ag addysg uwch ran amser ar gyfer yr elfennau rhan amser o'r sector. Serch hynny, mae'n bosibl nodi nifer o feysydd lle ceir tystiolaeth ynglŷn ag addysg uwch ran amser.

Nodweddion Myfyrwyr Rhan Amser

Derbynnir yn eithaf cyffredinol bod myfyrwyr addysg uwch ran amser yn wahanol iawn i fyfyrwyr llawn amser o ran eu nodweddion cymdeithasol. Felly, maent yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ac yn fwy tebygol o fod yn hŷn. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn fenywod; ond maent yn llai tebygol o ddod o gefndir lleiafrif ethnig. At hynny, mae cyfran uwch o fyfyrwyr rhan amser yn dewis byw yn agos i'w lle astudio na rhai llawn amser. O ran cyrhaeddiad addysgol blaenorol, er bod gan rai myfyrwyr rhan amser lefelau cymharol isel o gymwysterau addysgol, mae gan grŵp arall lefelau uchel iawn. (Er enghraifft, Ramsden, 2006; Pollard *et al.*, 2012; Callender *et al.*, 2010).

Fodd bynnag, mae'n llai amlwg beth yw'r cydberthnasau *systemataidd* rhwng y nodweddion cymdeithasol hyn a chymryd rhan mewn addysg uwch ran amser. Er mwyn mynd i'r afael â'r math hwn o fater byddai angen cymharu unigolion sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch ran amser (o wahanol fathau) a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan (p'un a ydynt yn cymryd rhan yn llawn amser mewn addysg uwch neu ddim o gwbl), tra'n amcangyfrif effeithiau eu nodweddion cymdeithasol ar y deilliannau gwahanol. Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw astudiaeth wedi ceisio gwneud hyn (sy'n adlewyrchu'r anawsterau technegol i wneud hynny, mae'n debyg).

Cymbellion i Astudio

Mae nifer yr astudiaethau wedi pwysleisio cydfodolaeth cymhellion cyfrannol a chynhenid dros ymgymryd ag addysg uwch ran amser. Felly, mae unigolion yn nodi eu bod wedi ymgymryd ag astudio'n rhan amser er mwyn gwella eu sgiliau a'u rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol (yn enwedig lle mae ganddynt gymwysterau isel neu ddim cymwysterau blaenorol) *ac* am resymau gwella personol (er mwyn astudio pynciau o ddiddordeb neu gyflawni dyheadau hirdymor, er enghraifft) (Feinstein *et al.*, 2007; Swain a Hammond, 2011). Mae llai o astudiaethau wedi mynd i'r afael yn benodol â'r cwestiwn pam bod myfyrwyr wedi ymgymryd ag astudio'n rhan amser *yn hytrach nag* addysg uwch lawn amser. Mae'r rhai sydd wedi gwneud hynny wedi pwysleisio pwysigrwydd cyfyngiadau ariannol gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn dweud yn syml na allent fforddio rhoi'r gorau i'w swyddi. Mae ymrwymiadau teuluol hefyd yn bwysig (yn enwedig i rieni unigol). (Callender *et al.*, 2006; Schuller *et al.*, 1999)

Fodd bynnag, dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r astudiaethau hyn yn cyfeirio at fyfyrwyr sy'n astudio graddau cyntaf yn rhan amser. Gwyddom lawer llai am fyfyrwyr rhan amser sy'n dilyn mathau eraill o raglenni, ac mae ein gwybodaeth am y rhai sy'n dilyn rhaglenni galwedigaethol islaw lefel gradd yn ddarniog iawn. Er ei bod yn rhesymol disgwyl bod cymryd rhan yn yr olaf wedi gogwyddo'n fwy tuag at gymhellion cyfrannol, dylid cofio y dangoswyd, ar lefel addysg uwchradd, fod y ffiniau rhwng rhaglenni galwedigaethol a deilliannau addysg *cyffredinol* yn hawdd iawn i'w croesi, yn enwedig i rai grwpiau o ddisgyblion. At hynny, mae llawer o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn y rhaglenni galwedigaethol hyn oherwydd awgrym gan eu cyflogwyr, yn hytrach na dewis gwneud hynny mewn unrhyw ystyr arferol.

Profiadau o Ddysgu

Mae niferoedd mawr o astudiaethau wedi rhoi dadansoddiadau disgrifiadol o brofiadau myfyrwyr rhan amser o addysg uwch, yn seiliedig ar adroddiadau'r myfyrwyr eu hunain. Mae'r rhain yn pwysleisio – ar y cyfan – ymdeimlad y myfyrwyr eu bod wedi'u hymyleiddio o fewn sefydliadau addysg uwch a'r anawsterau a wynebant weithiau i ddod yn rhan o amgylchedd diwylliannol addysg uwch (Callender *et al.*, 2006). Fodd bynnag, mae dadansoddiadau o'r fath yn aml yn canolbwyntio ar grwpiau eithaf bach o fathau penodol o fyfyrwyr. At hynny, ceir tystiolaeth braidd yn groes: er enghraifft, mae'r Brifysgol Agored yn sgorio'n uchel iawn yn rheolaidd o ran boddhad myfyrwyr, o leiaf fel y'i cofnodwyd yn yr Arolwg Boddhad Myfyrwyr Cenedlaethol – sy'n gyfyngedig, rhaid cyfaddef.

Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd sy'n taflu goleuni ar yr anawsterau y mae myfyrwyr rhan amser yn eu profi wrth gwblhau eu hastudiaethau. Er enghraifft, mae astudiaeth ddiweddar o fyfyrwyr rhan amser yng Nghymru yn ddiddorol iawn yn hyn o beth, er, unwaith eto, mae cyfyngiadau methodolegol pwysig ar gadernid y canfyddiadau (o ran pa mor gynrychioliadol yw'r sampl) (Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'r Brifysgol Agored, 2014). Mae'n syndod o bosibl nad materion ariannol yw'r rhai pwysicaf yn hyn o beth; er bod materion o'r fath yn amlwg o bwys mawr i grwpiau penodol o fyfyrwyr. Mae pryderon eraill yn ymwneud â'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag ymdopi â gofynion astudio addysg uwch, tra'n dal swydd a/neu roi gofal neu gymorth i'r teulu.

Adlewyrchir yr anawsterau a nodir gan fyfyrwyr rhan amser (fwy na thebyg) mewn nifer fach iawn o astudiaethau o gadw/colli myfyrwyr a deilliannau cyrsiau i'r myfyrwyr hynny. Felly, er

enghraifft, mae dadansoddiadau disgrifiadol yn nodi bod cyfraddau rhoi'r gorau iddi yn uwch ymhlith myfyrwyr rhan amser na myfyrwyr llawn amser, er bod angen bod yn ofalus yn hyn o beth er mwyn sicrhau bod cymariaethau o'r fath yn ystyrion (ac yn sicr, mewn rhai achosion, nid oes fersiynau rhan amser a llawn amser o raglenni y gellir eu cymharu). At hynny, mae'r astudiaethau mwyaf cadarn yn ystyried y gwahaniaethau o ran y nodweddion cymdeithasol myfyrwyr rhan amser a myfyrwyr llawn amser yn systemataidd wrth gymharu eu perfformiad. Z\Felly, er enghraifft, dadleuwyd mewn un astudiaeth bod myfyrwyr rhan amser tua 15 y cant yn llai tebygol o ennill gradd 'dda' na myfyrwyr llawn amser, hyd yn oed pan ystyrir nifer o'u nodweddion cymdeithasol (Pollard *et al.*, 2012).

Rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol datblygu'r mathau olaf hyn o ddadansoddiad ymhellach, gan eu hestyn i amrywiaeth ehangach o fyfyrwyr rhan amser. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod problemau technegol wrth wneud hynny, yn bennaf o ran argaeledd data priodol.

Cefnogaeth gan Gyflogwyr

Un ffactor penodol y dangoswyd ei fod yn arwyddocaol iawn o ran hyrwyddo deilliannau llwyddiannus wrth astudio'n rhan amser mewn addysg uwch yw cefnogaeth gan gyflogwyr. Yn hyn o beth, ceir tystiolaeth eithaf cadarn sy'n dangos bod cefnogaeth cyflogwyr yn chwarae rhan sylweddol, nid yn unig o ran cymorth ariannol (er bod hyn yn bwysig), ond hefyd o ran creu'r amgylchiadau sy'n cyfyngu ar bwysau amser ac ymrwymadau eraill ar fyfyrwyr rhan amser (sydd mewn cyflogaeth) (Mason, 2014).

Fodd bynnag, ceir cryn dipyn o dystiolaeth hefyd sy'n dangos nad yw pob cyflogwr, o bell ffordd, yn barod i gefnogi cyfranogiad eu cyflogeion mewn addysg uwch rhan amser, gyda sefydliadau mwy o faint a'r rhai yn y sector cyhoeddus yn llawer mwy tebygol o wneud hynny. Mae'n ddigon posibl y bydd y canfyddiad olaf o bwys penodol i Gymru, o ystyried pwysigrwydd y sector cyhoeddus i'r economi gyffredinol (Williams 2010).

Priodolwyd amharoddrwydd cyflogwyr i roi cefnogaeth o'r fath i faterion eithaf sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r cydberthnasau rhwng cyfalaf dynol (cymwysterau ac ati) a symudiad unigolion rhwng cwmnïau; yn syml, gall cyflogwyr fod yn amharod i gefnogi ymgais eu cyflogeion i ennill cymwysterau a fydd yn eu galluogi i gael gwell swydd gyda chyflogwr arall. Fodd bynnag, dadleuwyd bod ffactorau dibynnol ar waith, megis effeithiau twf economaidd araf iawn ers dirwasgiad 2008-9 a'r cynnydd mewn ffioedd dysgu ar gyfer llawer o raglenni addysg uwch ran amser (Mason, 2014).

Effeithiau Economaidd

Mae rhai o'r cwestiynau mwyaf perthnasol ynglŷn ag addysg uwch ran amser yn ymwneud â'i heffeithiau economaidd. Ceir cryn dipyn o lenyddiaeth sy'n rhoi dadansoddiad cadarn o'r enillion y gall unigolion eu cael o ganlyniad i ennill cymwysterau addysgol a phroffesiynol o wahanol fathau. Yn nodweddiadol, mae astudiaethau yn y traddodiad hwn yn cymharu'r buddiannau economaidd a ddaw i ran unigolion sydd â chymhwyster penodol â rhai nad oes ganddynt y cymhwyster hwnnw, tra'n ystyried nifer o nodweddion cymdeithasol y ddau grŵp; felly gallant ynysu effeithiau'r cymhwyster, gyda gwahaniaethau eraill yn cael eu hystyried 'yn sefydlog'. Er enghraifft, ceir tystiolaeth gadarn iawn bod graddedigion yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth a

chael ‘premiwm enillion gydol oes’ sylweddol o’u cymharu â phobl nad ydynt yn raddedigion ond sy’n debyg mewn ffyrdd eraill (er enghraifft, Conlon a Patrignani, 2011).

I’r graddau y caiff unigolion sydd wedi ennill eu cymhwyster drwy astudio’n rhan amser eu cynnwys yn y dadansoddiadau hyn (yn aml mae’n anodd cadarnhau p’un a ydynt wedi’u cynnwys ai peidio), yna caiff y buddiannau economaidd y dangosir eu bod yn dod i ran unigolion sydd â chymwysterau penodol eu rhannu gan fyfyrwyr rhan amser a myfyrwyr llawn amser. Fodd bynnag, dylid cofio mai *cyfartaleddau* yw’r buddiannau hyn ac felly, mae’n ddigon posibl ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng cyfranogwyr rhan amser a llawn amser i weld a yw’r cyfartaleddau yn celu gwahaniaethau systemataidd rhwng y ddau grŵp.

Yn anffodus, nid oes fawr ddim gwaith ymchwil ar gael sy’n ei gwneud yn bosibl i wahaniaethu yn y modd hwn. Ceir astudiaethau sy’n nodi bod ymatebwyr yn dweud bod eu gyrfa wedi datblygu, eu bod yn fwy bodlon ar eu swydd a’u bod yn ennill mwy ar ôl cwblhau rhaglenni addysg uwch ran amser (Brennan *et al.*, 2000). Mae astudiaethau mwy diweddar yn cadarnhau’r llun cadarnhaol cyffredinol hwn (Callender a Wilkinson, 2013).

Fodd bynnag, mae’n bwysig gweld i ba raddau y mae’r buddiannau hyn yn wahanol i’r rhai y mae unigolion nad ydynt yn ymgymryd ag astudio’n rhan amser, ond sy’n debyg fel arall, yn eu cael. Rydym ond wedi llwyddo i nodi un astudiaeth sy’n cyflwyno dadansoddiad ar hyd y llinellau hyn ac mae hon wedi’i chyfyngu gan ei dibyniaeth ar Arolwg Hydredol HESA o Gyrcfannau’r Rhai sy’n Gadael Addysg Uwch, sy’n dilyn hynt israddedigion llawn amser a rhan amser dim ond chwe mis a thair blynedd a hanner ar ôl graddio (Callender a Wilkinson, 2011). Serch hynny, mae’r astudiaeth hon yn nodi bod graddedigion a astudiodd yn rhan amser yr un mor debygol o fod mewn cyflogaeth ac mewn categorïau galwedigaethol uwch â myfyrwyr llawn amser dair blynedd a hanner ar ôl graddio; ac maent yn fwy tebygol o fod mewn swydd barhaol. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn ennill mwy na’u cymheiriaid llawn amser; ond mae cyfradd twf eu cyflogau yn arafach.

Rydym o’r farn bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil o’r fath fel mater o frys. Fodd bynnag, unwaith eto, ceir anawsterau technegol sylweddol sy’n bennaf gysylltiedig ag argaeledd data priodol.

Cyfyd cwestiynau pwysig hefyd o ran y buddiannau economaidd *ar y cyd* i addysg uwch ran amser. O ran dadansoddiad economaidd confensiynol, mae cynyddu cyfalaf dynol – drwy ba fodd bynnag – yn gwella cynhyrchiant a thrwy hynny’n cyfrannu at dwf economaidd gwell. Fel y gwelsom, mae’r fath ddadl wedi cynnig elfen bwysig o’r rhesymeg dros gefnogaeth llywodraethau i ddarpariaeth addysg uwch ran amser (yn ogystal â mathau eraill o ddarpariaeth). Fodd bynnag, mae union natur y prosesau cymdeithasol gwirioneddol dan sylw yn destun dadl; ac, yn gyffredinol, mae prinder tystiolaeth empirig uniongyrchol ynglŷn â’r prosesau cymdeithasol sy’n sail i’r cydberthnasau ystadegol a nodwyd drwy ddadansoddi economaidd. *Ym mba ffordd* mae ennill cymwysterau yn effeithio ar gynhyrchiant o fewn sefydliadau? Yn sicr, nid oes fawr ddim dadansoddiadau empirig sy’n ein galluogi i gadarnhau a yw cynyddu cyfalaf dynol drwy addysg uwch ran amser yn cael yr un effeithiau o ran cynhyrchiant ag addysg uwch llawn amser. At hynny, ymddengys bod bron ddim ymchwil empirig sy’n ystyried i ba raddau y mae dulliau

gwahanol o ennill cyfalaf dynol – llawn amser a rhan amser, yn yr achos hwn – yn awgrymu prosesau gwahanol o gymhwyso'r cyfalaf dynol hwnnw mewn gweithleoedd.

Effeithiau Cymdeithasol

Mae nifer fach o astudiaethau wedi dadlau bod effeithiau cymdeithasol unigryw yn llifo o gymryd rhan mewn addysg uwch ran amser. Unwaith eto gellir mynegi'r rhain yn nhermau effeithiau ar unigolion ac ar y cyd. Felly, ar lefel unigolyn, nodwyd bod ymatebwyr yn dweud mai eu datblygiad personol eu hun yw canlyniad mwyaf arwyddocaol eu hastudiaethau rhan amser. Yn amlach na pheidio, maent yn nodi bod ganddynt fwy o hunanhyder a hunangred; ond cyfeiriwyd at y canlynol hefyd: dod yn fwy ymwybodol a goddefgar o safbwyntiau pobl eraill; gwybod mwy am y byd; cyfarfod â phobl o'r un anian; a datblygu agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddysgu (Jamieson *et al.*, 2009; Swain a Hammond, 2011). Mae un astudiaeth yn cyfeirio at haeriadau ymatebwyr bod eu hapusrwydd cyffredinol a'u lles wedi gwella o ganlyniad i'w hastudiaethau rhan amser (Callender a Wilkinson, 2012).

Awgrymwyd hefyd fod cymryd rhan mewn addysg uwch ran amser yn esgor ar fuddiannau cymdeithasol ar y cyd hefyd. Felly, mae ymatebwyr yn nodi eu bod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn sefydliadau a gweithgareddau mewn cymdeithas sifil. At hynny, maent yn dweud bod cydberthnasau teuluol wedi gwella; ac, yn fwy penodol, eu bod yn teimlo y gallant gefnogi addysg eu plant yn well a bod eu teuluoedd yn ymddiddori mwy mewn dysgu (Callender a Wilkinson, 2012; Jamieson *et al.*, 2009).

O ystyried pwysigrwydd y materion hyn, mae'r ffaith bod sylw ymchwilwyr wedi dechrau troi atynt i'w chroesawu'n fawr. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor o waith. Mae'r astudiaethau sydd wedi'u cwblhau hyd yma, nid yn unig yn brin o ran nifer, ond maent hefyd wedi canolbwyntio ar fathau penodol o fyfyrwyr rhan amser (yn gyffredinol, y rhai a oedd yn astudio ar gyfer graddau cyntaf rhan amser). At hynny, nid yw'r graddau y mae'r mathau hyn o effeithiau'n wahanol iawn rhwng myfyrwyr rhan amser a llawn amser wedi cael eu dadansoddi. Yn fwy cyffredinol, mae angen hefyd inni ystyried i ba raddau y mae'r effeithiau cymdeithasol a nodwyd yn parhau dros amser ynteu ai ffenomenon dros dro ydynt.

Yr Angen am Ragor o Waith Ymchwil

Fel y nodwyd yn gynharach, er gwaethaf pwysigrwydd addysg uwch ran amser i bolisi'r llywodraeth, mae'n drawiadol bod y sylfaen ymchwil ar gyfer datblygu polisi yn dal i fod braidd yn denau. Mae hyn yn arbennig o wir am Gymru. Yn amlwg, nid oes unrhyw reswm dros gredu nad yw'r canfyddiadau mwy cyffredinol a adolygwyd yn yr adran hon yn berthnasol yng nghydestun Cymru. Fodd bynnag, yn yr un modd, mae gan Gymru nodweddion unigryw hefyd, nid yn unig o ran cymeriad ei hamgylchiadau economaidd a chymdeithasol, ond hefyd ffurf y ddarpariaeth ran amser (sydd, yn ei dro, yn adlewyrchu penderfyniadau polisi yn y gorffennol ac yn awr). Ond fel y gwelsom, ychydig iawn o sylw mewn gwirionedd sydd wedi cael ei roi i addysg uwch ran amser yng Nghymru (ond gweler Williams, 2010; ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'r Brifysgol Agored yng Nghymru, 2014). Mae hyn yn anffodus iawn, o ystyried y dadleuon ynglŷn â pholisi ar hyn o bryd. At y rhain y byddwn yn eu troi yn yr adran nesaf.

Problemau wrth Ddarparu Addysg Uwch Ran Amser: safbwyntiau'r sector

Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r safbwyntiau a fynegwyd gan 'chwaraewyr allweddol' ym maes addysg uwch yng Nghymru ar y problemau mwyaf dybryd a wynebir wrth ddarparu cyfleoedd rhan amser.⁶ Dylid pwysleisio mai dim ond adroddiad cychwynol a roddir gan y data a gasglwyd yma, o ystyried y nifer fach iawn o ymatebwyr. At hynny, dylid cofio bod llawer o'r unigolion a gyfwelwyd gennym yn ymwneud â darparu addysg uwch ran amser eu hunain; ac felly y gellir eu hystyried yn eiriolwyr cadarn dros y math hwn o ddarpariaeth addysg uwch. Serch hynny, er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, drwy'r cyfweiliadau cafwyd sylwadau diddorol ar y sefyllfa sydd ohoni o ran addysg uwch ran amser yng Nghymru, yn enwedig yng ngoleuni'r dadleuon cyfredol ynglŷn ag ariannu darpariaeth ran amser a'i threfniadau yn fwy cyffredinol.

Efallai mai'r safbwynt mwyaf cyffredin a fynegwyd gan ein hymatebwyr oedd bod diffyg cyswllt mawr rhwng yr hyn a ddisgrifiwyd fel rhyngwedd trafodaethau polisi swyddogol a realiti'r ddarpariaeth wirioneddol. Fel y dywedodd un ymatebydd:

Gwnaeth araith ddiweddar y Gweinidog yng nghynhadledd CCAUC ar 'ehangu mynediad', ei chydabod i ryw raddau. Mae rhan amser yn bwysig iawn i bob oedran, mae'n bwysig iawn ac ati, ond ... os edrychwch ar sylwedd yr araith, mae'n ei chydabod i ryw raddau, yna mae'n symud yn ei flaen i sôn am ysgolion yn bennaf, sydd fliynau o filltiroedd i ffwrdd o faterion rhan amser, yn fy nhyb i.⁷

Hynny yw, ni waeth pa mor gryf yw'r gefnogaeth ymddangosiadol i ddarpariaeth ran amser mewn datganiadau polisi, nid yw hyn yn cael ei thro'i'n gefnogaeth wirioneddol i bob diben.

Tybiwyd mai'r arwydd amlycaf o hyn oedd ym maes cyllid. Mae dwy agwedd i hynny. Yn gyntaf, mynegodd darparwyr addysg uwch ran amser y farn bod sefydliadau yn cael eu cefnogi'n wael i ddarparu cyrsiau rhan amser, yn enwedig o gymharu â rhai llawn amser. Er y cydnabuwyd bod CCAUC wedi parhau i ddyrannu credyd rhan amser, dadleuwyd bod cyllid yn methu â digolledu sefydliadau am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â darpariaeth ran amser. O ganlyniad, mae sefydliadau addysg uwch yn wynebu pwysau i gyfyngu ar ddarpariaeth ran amser o blaid darpariaeth llawn amser. Yn wir, roedd y syniad bod yr hyn a ystyriwyd yn gefnogaeth ariannol eithaf hael i ddarpariaeth llawn amser yn 'gwasgu' ar y gefnogaeth i addysg uwch ran amser yn thema a gododd yn aml ymhlith yr ymatebwyr.

Mae mwy a mwy o'r arian wedi cael ei neilltuo ar gyfer darpariaeth llawn amser. Pe baech yn edrych ar gyfran llawn amser a rhan amser, bu cynnydd sylweddol mewn cyllid llawn amser ac, yn anochel, felly, rhyw fath o dalu'r hen a dwyn y newydd. Mae cost cyfle ynghlwm wrth hyn ac mae rhan amser wedi dioddef, felly mae cyllid rhan amser wedi gostwng, ac mae hynny'n achos pryder mawr...Mae'r cyllid yn fater hollbwysig.

⁶ Mae'r adran hon yn seiliedig ar gyfweiliadau lled-strwythurol a gynhaliwyd â chynrychiolwyr: pedair prifysgol (dwy cyn 1992, dwy ar ôl 1992); y Brifysgol Agored; Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd; dau goleg addysg bellach; Colegau Cymru; ac UCM Cymru. Mewn rhai achosion, cynhaliwyd mwy nag un cyfweiliad. Yn anffodus, nid oedd Prifysgolion Cymru yn gallu cymryd rhan.

⁷ O ystyried y nifer fach iawn o ymatebwyr, ni phriodolir unrhyw ddyfyniadau i unigolion.

Yn fwy penodol, dadleuodd nifer o ymatebwyr fod y problemau hyn gydag ariannu darpariaeth ran amser wedi cael effeithiau arbennig o niweidiol ar ddarparu cyrsiau islaw lefel gradd gyntaf. Mae i hyn oblygiadau pwysig, fe ddadleuwyd, i'r nod o uwchsgilio llafurlu Cymru. Mae hefyd yn awgrymu bod y llwybrau datblygu tuag at gymwysterau lefel uwch yn cael eu rhwystro yn y tarddle, ac felly caiff gallu addysg uwch i gefnogi symudedd galwedigaethol ei leihau.

Os na chaiiff y gadwn gyflenwi o fyfyrwyr rhan amser ar Lefel 2 a Lefel 3 ei hariannu na'i chefnogi, yna mae'r niferoedd y gall prifysgolion eu denu yn debygol o leihau; ac rwy'n credu bod hynny'n beth anffodus i'r grwpiau hynny o unigolion.

Yr ail faes o anfantais ariannol ar gyfer darpariaeth ran amser yw'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer eu hastudiaethau. O ran hyn, nododd nifer o ymatebwyr y diffyg cydbwysedd hanesyddol yn y cymorth a oedd ar gael i fyfyrwyr rhan amser o gymharu â'u cymheiriaid llawn amser. Fodd bynnag, dadleuwyd hefyd, hyd yn oed ar ôl i'r cymorth ariannol (ffioedd dysgu, benthyciadau a grantiau cwrs) gael ei estyn i fyfyrwyr rhan amser, eu bod yn dal i fod o dan anfantais sylweddol. Mae hyn yn ymwneud nid yn unig â lefel y cymorth sydd ar gael, fe ddadleuwyd, ond hefyd y meini prawf cymhwysedd sy'n ymwneud â chymwysterau addysgol blaenorol a dwysedd cyrsiau. Felly, ni all y rhai sydd eisoes wedi ennill gradd anrhydedd yn y DU wneud cais am grantiau cwrs 'fel arfer'. Yn bwysicach fyth, er mwyn bod yn gymwys i gael benthyciad ffi dysgu, mae'n rhaid bod unigolion yn astudio ar lefel dwysedd o 25 y cant ac er mwyn cael grant cwrs, ar lefel dwysedd o 50 y cant (Cyllid Myfyrwyr Cymru, 2014). Tybiwyd bod bodloni'r meini prawf olaf hyn yn creu anawsterau i lawer o (ddarpar) fyfyrwyr. Fel y nododd un ymatebydd:

Er bod gennym bobl sy'n astudio ar lefel dwysedd eithaf isel, ar lefel 4 ac uwch, ond maen nhw'n astudio'n rhan amser ar lefel dwysedd isel, y rhwystrau a welwn erbyn hyn yw, er mwyn i bobl gael benthyciadau, o dan y drefn newydd, y bydd yn rhaid iddynt astudio ar lefel dwysedd benodol. Ar lefel 25 y cant, dwi'n credu. Bydd y rhan fwyaf o'n myfyrwyr yn astudio ar lefel is na hynny, sy'n golygu na allwn godi ffi fasnachol mewn gwirionedd am na fydd modd iddyn nhw gael y cymorth. Felly nid yw'n chefnogi'r ffordd y mae rhan amser neu ein math rhan amser ni o ymgysylltu cymunedol... yn cael ei ariannu.

Mae ein dadansoddiad ein hun yn ategu'r safbwynt hwn i raddau sylweddol. Fel y gwelsom mewn adran gynharach o'r adroddiad hwn, mae llai na 50 y cant o fyfyrwyr israddedig yn astudio ar lefel dwysedd o 25 y cant, sy'n awgrymu, wrth gwrs, nad yw'r 50 y cant arall o'r myfyrwyr hyn yn gymwys i gael cymorth ariannol. Dim ond 30 y cant o fyfyrwyr israddedig sy'n astudio ar lefel dwysedd o 50 y cant, sy'n awgrymu nad yw 70 y cant o fyfyrwyr yn gymwys i gael yr holl gymorth ariannol sydd ar gael. At hynny, mae'r rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn fwy tebygol o fod yn iau (o dan 40 oed). Fodd bynnag, mae'n bosibl bod myfyrwyr hyn yn fwy tebygol o gael eu cynorthwyo gan eu cyflogwyr a/neu'n fwy tebygol o fod a mwy o adnoddau personol y gallant eu defnyddio (ond mae angen gwrthbwysu'r olaf yn erbyn y tebygolrwydd y bydd ganddynt fwy o gyfrifoldebau i gynnal teulu, ac ati).

Cydnabuwyd gan nifer o ymatebwyr, o ystyried amrywiaeth myfyrwyr rhan amser, ei bod yn anodd rhagweld sut y bydd y system newydd o gymorth i fyfyrwyr yn effeithio ar y duedd i

gymryd rhan mewn addysg uwch. Yn sicr, roedd canfyddiad cyffredinol bod nifer y myfyrwyr rhan amser wedi bod yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf (er bod ein dadansoddiad o dueddiadau, a gyflwynir mewn adran gynharach, yn awgrymu darlun braidd yn gymhleth). Fodd bynnag, roedd llawer llai o sicrwydd – nad yw'n syndod – ynglŷn â phatrymau tebygol yn y dyfodol. Eto i gyd, awgryma ein dadansoddiad fod y meini prawf cymhwysedd sydd ar waith yn golygu na fydd y system newydd o gymorth i fyfyrwyr rhan amser yn effeithio ar gyfran sylweddol o unigolion.

Mae'n bwysig nodi hefyd na ellir priodoli'r statws difreintiedig y mae myfyrwyr rhan amser yn ei brofi, fe ddadleuwyd, yn gyfan gwbl i bolisi'r Llywodraeth. Credid bod cryn gyfrifoldeb ar sefydliadau addysg uwch hefyd. Y prif fater a nodwyd yn hyn o beth oedd bod sefydliadau yn trin myfyrwyr llawn amser fel rhai 'arferol', gyda myfyrwyr rhan amser yn cael eu hystyried yn rhywbeth ychwanegol – ac anghyfleus weithiau. Adlewyrchir hyn, fe ddadleuwyd, ym mhob agwedd bron ar brofiad myfyrwyr. Felly, er enghraifft, mae'n llawer mwy anodd cael gafael ar wybodaeth sylfaenol – yn enwedig o ran materion allweddol megis lefelau ffioedd – ynglŷn â chyrtsiau rhan amser a chyrtsiau llawn amser.

O ran banner y sefydliadau yng Nghymru, ni allwch ganfod faint o dâl y byddant yn ei godi amdano [astudio'n rhan amser], ddywedwn i. Felly rhaid i chi fod yn benderfynol iawn ac, yn gyffredinol, os ydych yn sôn am gynhwysiant cymdeithasol, ni fydd y bobl hynny yn hyderus, nac yn gnybod sut i wneud cais amdano.

Nododd ymatebwyr hefyd fod trefniadau rhaglenni addysgu yn cael eu haddasu'n wael at anghenion myfyrwyr rhan amser weithiau. Dywedodd un ymatebydd:

Rydych yn dechrau trafod pethau fel argaeledd, eich oriau, beth yw oriau agor labordai neu hyfrgelloedd. Unwaith eto, maent wedi'u cynllunio'n aml gyda myfyrwyr llawn amser mewn golwg. Rydych yn dod yn ymnybodol o ddarlithwyr a sut mae staff addysgu yn aml yn gyfarwydd â myfyrwr llawn amser sy'n cael llawer mwy o amser rhydd, ac felly mae'r ffordd y maen nhw'n cyfathrebu wedi'i hanelu at rywun a all wneud pethau ar ôl cael llawer llai o rybudd... rydych yn sôn am fyfyrwr rhan amser yn byw ym myd myfyrwr llawn amser yn y bôn.

Y farn gyffredinol oedd bod yn well gan sefydliadau addysg uwch recriwtio myfyrwyr llawn amser, nid yn unig am resymau ariannol, ond hefyd am eu bod yn haws eu rheoli.

Gall [darparmyr addysg uwch] gael naw mil o bunnoedd y flwyddyn am fyfyrwr israddedig llawn amser ac mae'r myfyrwr israddedig hwnnw yn creu llai o fforddau yn weinyddol, oberwydd dim ond unwaith y gallant gofrestru, o bosibl dim ond unwaith am dair blynedd mewn gwirionedd. Mae UCAS yn eu cludo atoch. Ond gyda myfyrwyr rhan amser, nid ydych yn cael dim byd tebyg o ran incwm, efallai llai na banner yr incwm hwnnw, a dwend y gwir. Hefyd, mae'n rhaid i chi fynd ati i ddenu'r myfyrwr rhan amser o flwyddyn i flwyddyn. Unwaith y bydd myfyrwr rhan amser wedi gorffen ei fodwl, wedi llwyddo, tri deg credyd, chwe deg credyd, rhaid i chi fynd at i'w denu'n ôl unwaith eto. Nid oes sicrwydd y dônt yn ôl o gwbl.

Efallai nad yw'n syndod yng ngoleuni'r pwyntiau hyn, fod ymatebwyr yn credu bod myfyrwyr rhan amser yn aml yn cwestiynu dilysrwydd eu statws fel 'myfyrwr' o gwbl.

Bydd materion yn codi bob amser ynglŷn â'u teimladau eu hunain o ddilysrwydd. Ydw i'n perthyn? A yw hyn addas i mi? Mae eu darbynyllo y gallan nhw fod yn rhan o hynny yn cymryd amser. Ond y rhwystr bob amser fydd yr ymdeimlad hwnnw o ddilysrwydd...

Felly, yn gryno, yr hyn sydd ei angen er mwyn cael trefniant mwy effeithiol o ddarpariaeth ran amser o addysg uwch, ym marn yr ymatebwyr, yw llawer mwy o barch cydradd rhwng y ddwy ddarpariaeth. Fel y dywedodd un ymatebydd yn huawdl:

Mae angen i ni ofyn y cwestiwn: 'Beth yw rôl addysg uwch? Beth yw dibenion addysg uwch?' Yn amlwg, creu dinasyddiaeth neu weithlu hyfedr; ymchwil a chreu gnybodaeth...a chyfraniadau dinylliannol a dinesig i fywyd yng Nghymru a hefyd addysg uwch fel rhywbeth byd-eang, nid dim ond ffocws yng Nghymru. Felly, rwy'n credu mai dyna'r man cychwyn i ni, y dibenion hynny i addysg uwch ac yna byddwch yn mynd yn eich blaen i ddweud bod lluosogrwydd dulliau astudio i fyfyrwyr. Felly dwi ddim yn credu bod addysg uwch ac yna ran amser. Rwy'n credu bod addysg uwch, bydd rhai pobl yn astudio'n llawn amser, bydd rhai pobl yn astudio'n rhan amser. Mae'r gwahaniaeth rhyngddyn nhw yn eithaf aneglur yn y canol erbyn hyn.

Fodd bynnag, er mwyn cael parch cydradd o'r fath, cydnabuwyd bod angen gwneud newidiadau sylweddol, nid yn unig o ran polisi'r llywodraeth, ond hefyd yn strategaethau trefniadol sefydliadau addysg uwch.

Meysydd ar gyfer Gwaith Ymchwil Pellach

Fel y pwysleisiwyd gennym ar y dechrau, prif nod y gwaith a nodir yma yw ‘cwmpasu’r maes’, yn hytrach na chyflwyno dadansoddiad y byddem yn ei ystyried yn orffenedig mewn unrhyw ffordd. Yn wir, un rhan bwysig o’n cylch gwaith oedd ceisio nodi meysydd lle mae angen gwaith ymchwil pellach; ac y gall yr Adolygiad ystyried ymgymryd ag ef. Yn yr hyn sy’n dilyn, rydym yn rhoi rhestr o feysydd o’r fath.

Addysg Uwch Ran Amser islaw Lefel Gradd

Fel y gwelsom, nid yw addysg uwch ran amser wedi denu fawr ddim gwaith ymchwil o’i chymharu ag addysg lawn amser. Fodd bynnag, mae’r mwyafrif llethol o’r gwaith a wnaed wedi ymwneud â chyfranogiad rhan amser mewn rhaglenni gradd gyntaf. Yn amlwg, mae hwn yn grŵp pwysig; a byddai’n ddefnyddiol pe bai gennym fwy o wybodaeth amdano. Fodd bynnag, fel y dengys ein dadansoddiad cynharach yn glir, nid yw’r mwyafrif o fyfyrwyr rhan amser yn rhan o’r lefel hon ond, yn hytrach, maent yn cymryd rhan mewn rhaglenni islaw lefel gradd. At hynny, y rhaglenni olaf hynny sydd wedi wynebu rhai o’r newidiadau mwyaf dros y blynyddoedd diwethaf. *Yn ein barn ni, mae angen gwneud dadansoddiad o’r hyn sy’n sail i’r newidiadau hyn ar lefel islaw gradd fel mater o frys, yn enwedig yng nghyd-destun pwysigrwydd y mathau hyn o ddarpariaeth o ran datblygu economaidd ar lefel ranbarthol a mwy lleol a datblygu llwybrau datblygu tuag at gymwysterau lefel uwch a’r symudedd galwedigaethol y gall y rhain eu cefnogi.*

Enillion Cymwysterau a Enillwyd drwy Addysg Uwch Ran Amser

Yng nghyd-destun y dadleuon presennol ynglŷn â chyllid i fyfyrwyr, mae mater enillion economaidd cymwysterau o bwys mawr. Wrth ddisgrifio’r enillion hyn ar lefel unigolyn defnyddir termau fel ‘premiwm graddedigion’ yn aml, ond, yn enwedig yng nghyd-destun addysg uwch ran amser, mae’n bwysig deall yr enillion sy’n gysylltiedig â gwahanol lefelau o gymhwyster (ac, yn wir, gymryd rhan mewn dysgu nad yw’n arwain at gymwysterau hefyd). Er nad ydym yn diystyru’r problemau a achosir gan gyfyngiadau ar y data sydd ar gael, *credwn fod angen dybryd am ymchwil i faint yr enillion hyn i unigolion, gan ddefnyddio unigolion cyfatebol nad ydynt yn ymgymryd â’r cymwysterau o gwbl, ond hefyd y rhai sy’n gwneud hynny drwy raglenni llawn amser fel grwpiau cymharu.*

Mae cyd-destun penodol economi Cymru o bwys mawr yn hyn o beth. Mae astudiaethau blaenorol o ‘premiwm graddedigion’ wedi awgrymu ei fod ychydig yn is yng Nghymru nag ydyw mewn rhannau eraill o’r DU, gan adlewyrchu nodweddion penodol amgylchiadau economaidd Cymru (er bod y darlun hwn yn newid rywfaint o ystyried effeithiau costau byw gwahanol) (O’Leary a Sloane, 2008). Mae’n bwysig deall i ba raddau y mae nodweddion penodol economi Cymru yn effeithio ar yr enillion i’r holl ystod o gymwysterau.

At hynny, *mae angen dybryd i ddeall yn fwy clir i ba raddau y mae cronni cyfalaf dynol drwy gymryd rhan mewn addysg uwch ran amser yn cyfrannu at dmf economaidd yn fwy cyffredinol.* Unwaith eto, mae nodweddion penodol economi Cymru yn debygol o chwarae rhan allweddol yn hyn o beth,

yn enwedig o ystyried y dystiolaeth o 'orgymhwysu' ar raddfa fawr ym marchnad lafur Cymru (er enghraifft, Felstead *et al.*, 2013). Yn fwy cyffredinol, mae angen inni fynd i'r afael â'r cwestiwn a yw cronni cyfalaf dynol drwy'r dull rhan amser yn gweithio'n wahanol i'w gronni drwy astudio'n llawn amser. Mae ymchwiliad o'r fath yn debygol o gynnwys y dadansoddiad systemataidd o'r rhan a chwaraeir gan gyflogwyr (o fathau gwahanol) i gefnogi cyfranogiad rhan amser; yn ogystal â'r prosesau o ddefnyddio cyfalaf dynol ychwanegol i gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau mewn gwirionedd.

Effeithiau Systemau Cymorth Ariannol Nenydd ar Gyfranogiad Rhan Amser

Rydym wedi awgrymu'n gynharach bod y meini prawf cymhwysedd yn debygol o gyfyngu ar effaith y cymorth ariannol ychwanegol sydd ar gael i fyfyrwyr rhan amser yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen gwneud dadansoddiad pellach i gadarnhau hyn. Yn fwy penodol, *mae'n bwysig cadarnhau i ba raddau y mae benthyciadau a grantiau sydd ar gael i fyfyrwyr rhan amser nid yn unig yn effeithio ar lefelau cyfranogi mewn addysg uwch, ond hefyd gyfansoddiad y boblogaeth o fyfyrwyr rhan amser.* Bydd hyn o reidrwydd yn golygu gofyn cwestiynau ynglŷn â rôl ffactorau eraill (lefelau ffioedd, y cymorth sydd ar gael gan gyflogwyr, canfyddiadau o ddichonoldeb a gwerth cyfranogi ac ati) i ffurfio patrymau cyfranogi mewn addysg uwch ran amser.

Effeithiau Cymdeithasol Cyfranogiad Rhan Amser mewn Addysg Uwch

Er gwaethaf yr honiadau a wneir mewn dogfennau eiriolaeth a pholisi, prin yw ein gwybodaeth am effeithiau cymdeithasol cyfranogiad rhan amser mewn addysg uwch. Felly, er enghraifft, *mae'r cydberthnasau rhwng addysg uwch ran amser a symudedd cymdeithasol (drwy fynediad at alwedigaethau lefel uwch) heb eu harchwilio i raddau helaeth.* Mae hyn yn wir ar y lefel genedlaethol, ac yng nghyd-destun marchnadoedd llafur lleol, lle mae'r cysylltiadau rhwng symudedd daearyddol a chymdeithasol yn debygol o fod yn arwyddocaol iawn.

Dywedir yn fwyfwy hefyd fod *cyfranogi mewn addysg uwch yn cael effeithiau gwerthfawr o ran meithrin ymwneud â sefydliadau mewn cymdeithas sifil, a thrwy hynny wella dinasyddiaeth ddemocrataidd.* Unwaith eto, mae'r graddau y mae'r effeithiau cadarnhaol hyn yn llifo o gyfranogiad rhan amser mewn addysg uwch heb eu harchwilio i raddau helaeth.

Effeithiolrwydd Addysgol Cyfranogiad Rhan Amser o'i gymharu â Chyfranogiad Llawn Amser Cyfatebol

Mae'n syndod braidd nad oes fawr ddim gwaith ymchwil a fyddai'n ei gwneud yn bosibl inni gymharu effeithiolrwydd addysgol cyfranogiad rhan amser â chyfranogiad llawn amser cyfatebol (lle mae hynny ar gael). Yn amlwg, mae'n anodd gwneud gwerthusiadau ac iddynt sail gadarn o gostau cymharol gwahanol ddulliau o ddarpariaeth addysg uwch yn niffyg - bron yn gyfan gwbl - dadansoddiad systemataidd o effeithiolrwydd y ddau ddull o ran sicrhau deilliannau dysgu. Er ein bod yn cydnabod bod anawsterau mynych yn codi wrth gadarnhau cyfatebiaeth rhwng rhaglenni rhan amser a llawn amser, *serch hynny credwn fod angen dybryd am ymchwiliad i'r graddau y mae deilliannau dysgu penodol yn cael eu sicrhau'n llywyddiannus drwy'r dulliau gwahanol.*

Cyfeiriadau

Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2011) *Higher Education: Students at the Heart of the System*, Llundain: Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

Brennan, J., Mills, J., Shah, T. a Woodley, A. (2000) 'Lifelong Learning for Employment and Equity: the Role of Part-time Degrees', *Higher Education Quarterly*, 54: 4, 411-18.

Callender, C., Hopkin, R. a Wilkinson, D. (2010) *Futuretrack: Part-time Students Career Decision-making and Career Development of Part-time Higher Education Students*, Manceinion: HECSU.

Callender, C., Wilkinson, D. a Mackinnon, K. (2006) *Part-time Students and Part-time Study in Higher Education in the UK: a Survey of Students' Attitudes and Experiences of Part-time Study and its Costs 2005/6*, Llundain: Universities UK a GuildHE.

Callender, C. a Wilkinson, D. (2011) 'The Impact of Higher Education for Part-time Students', *Evidence Report 36*, Wath-upon-Deane: UKCES.

Callender, C. a Wilkinson, D. (2012) *Futuretrack: Part-time Higher Education Students – the Benefits of Part-time Higher Education after Three Years of Study*, Adroddiad i HECSU, Llundain: Birkbeck a NIESR.

Callender, C. a Wilkinson, D. (2013) *Futuretrack: Part-time Higher Education Students: the Impact of Part-time Learning Two Years after Graduation*, Adroddiad i HECSU, Llundain: Birkbeck a NIESR.

Conlon, G. a Patrignani, P. (2011) 'The Returns to Higher Education Qualifications', *Papur Ymchwil Rhif 45 yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau*, Llundain: Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

Feinstein, L. Anderson, T., Hammond, C., Jamieson, A. A Woodley, A. (2007) *The Social and Economic Benefits of Part-time, Mature Study at Birkbeck College and the Open University*, Ar gael ar-lein yn <http://www.bbk.uk/benefits/publications/reports-files/surveyone>.

Felstead, A., Davies, R. a Jones, S. (2013) *Job Skills, Qualification Use and Training in Wales: results from the Skills and Employment Survey 2012*, Caerdydd, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, Data a Dulliau (WISERD).

CCAUC (2014) *Addysg Uwch Ran Amser: Datganiad Sefyllfa*, W14/24HE: Atodiad B, Caerdydd: CCAUC .

Jamieson, A., Sabates, R., Woodley, A. a Feinstein, L. (2009) 'The Benefits of Higher Education Study for Part-time Students', *Studies in Higher Education*, 34: 3, 245-62.

Maguire, D. (2013) *Flexible Learning: Wrapping Higher Education around the Needs of Part-time Students*, Adroddiad HEPI Rhif. 60, Rhydychen: HEPI.

Mason, G. (2014) 'Part-time Higher Education: Employer Engagement under Threat?', *Higher Education Quarterly*, 68:3, 305-27.

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'r Brifysgol Agored, Cymru (2014) *It's About Time: a Study of Part-time Students and their Experiences in Wales*, Caerdydd: Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

O'Leary, N. a Sloane, P. (2008) 'Rates of Return to Degrees across British Regions', *Regional Studies*, 42:2, 199-213.

Pollard, E., Newton, B. a Hillage, J. (2012) 'The Returns to Higher Education Qualifications', *Papur Ymchwil Rhif 68 yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau*, Llundain: Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau

Ramsden, B. (2006) *Part-time Students and Part-time Study in Higher Education in the UK: a Quantitative Data Analysis of 2003/4 HESA Data*, Llundain: Universities UK.

Schuller, T., Raffe, D., Morgan-Klein, B. A Clark, I. (1999) *Part-time Higher Education: Policy, Practice and Experience*, Llundain: Jessica Kingsley.

Cyllid Myfyrwyr Cymru (2014) *Student Finance – New Part-time Students 2014/15*, Caerdydd: Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Swain, J. a Hammond, C. (2011) 'The Motivations and Outcomes of Studying for Part-time Mature Students in Higher Education', *International Journal of Lifelong Education*, 30:5, 591-612.

Llywodraeth Cymru (2013) *Datganiad Polisi ar Addysg Uwch* . Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Williams, G. (2010) 'Ymchwil i Addysg Uwch Ran Amser: Y Ddarpariaeth a'r Galw', *Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol Rhif 08/2010*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.